Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number/Rhif: 66/2014

www.cymru.gov.uk

# Asesiad Cyflym o’r Dystiolaeth: Anghenion gofal plant rhieni/gofalwyr sy’n gweithio oriau annodweddiadol neu sydd ag anghenion ychwanegol



# Asesiad Cyflym o’r Dystiolaeth: Anghenion gofal plant rhieni/gofalwyr sy’n gweithio oriau annodweddiadol neu sydd ag anghenion ychwanegol

Ebrill 2014


## Miller Research Ltd

**Katy Marrin**

**Heulwen Hudson**


Safbwyntiau’r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid safbwyntiau Llywodraeth Cymru o reidrwydd


I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Hayley Collicott

Yr Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays Caerdydd

CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 3111

E-bost: hayley.collicott@wales.gsi.gov.uk



Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 30 Mehefin 2014

ISBN: 978-1-4734-1751-9



© Hawlfraint y Goron 2014

## Cynnwys


Geirfa a therminoleg .......... 2
Crynodeb Gweithredol .......... 5
1 Cyflwyniad .......... 8
2 Methodoleg .......... 12
3 Themâu Allweddol – Rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol .......... 16
4 Themâu Allweddol – Gofal plant i blant ag anghenion ychwanegol .......... 34
5 Casgliadau ac argymhellion .......... 47
6 Cyfeiriadau .......... 53
Atodiad A: Methodoleg .......... 57
Atodiad B: Astudiaethau a gynhwyswyd yn yr Asesiad Cyflym o’r Dystiolaeth .......... 59
Atodiad C: Asesiad Ansawdd .......... 69

## Geirfa a therminoleg

| | |
|---|---|
| **Anghenion Addysgol Arbennig** | Mae gan rai plant anghenion neu anableddau sy'n effeithio ar eu gallu i ddysgu. Er enghraifft: ymddygiadol/cymdeithasol; darllen ac ysgrifennu; deall pethau; canolbwyntio (e.e. Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd); a/neu anghenion neu namau corfforol. |
| **Anghenion dysgu ychwanegol** | Anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth ychwanegol e.e.: llawer anos i unigolyn ddysgu na phlant o'r un oed; anabledd sy'n atal neu'n rhwystro unigolyn rhag defnyddio cyfleusterau addysgol a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer plant o'r un oed, mewn ysgolion o fewn yr un awdurdod lleol. |
| **Anghenion ychwanegol** | Mae anghenion ychwanegol yn cyfeirio at unigolyn sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a thymor hir ar ei allu i gyflawni gweithgareddau cyffredin o ddydd i ddydd. |
| **Arolwg o'r Llafurlu** | Arolwg o amgylchiadau cyflogaeth poblogaeth y DU yw'r Arolwg o'r Llafurlu. Hwn yw'r arolwg mwyaf a gynhelir o aelwydydd y DU ac mae'n darparu’r mesuriadau swyddogol o gyflogaeth a diweithdra. |
| **Deunydd Darllen Anfasnachol** | Yn fras, mae'n cynnwys pob deunydd darllen ar wahân i lyfrau a chyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid (e.e. adroddiadau ymchwil a gyhoeddir gan elusennau a'r llywodraeth). |
| **Erthygl a adolygwyd gan** | Erthygl sydd wedi ei gwerthuso gan ysgolheigion neu olygyddion cylchgronau mewn maes tebyg er mwyn |

| | |
|---|---|
| **gymheiriaid** | sicrhau ei bod yn cyrraedd y safonau angenrheidiol er mwyn ei chyhoeddi. |
| **Gofal plant anffurfiol** | Mae gofal plant anffurfiol yn cynnwys gofal a ddarperir (yn ddi-dâl fel arfer) gan: gyn-ŵr/cyn-wraig/cyn-gymar/rhiant arall y plentyn (nad yw'n byw gyda'r teulu hwn); neiniau a/neu deidiau'r plentyn; brawd/chwaer hŷn y plentyn; perthynas arall; neu ffrind neu gymydog. |
| **Gofal plant ffurfiol** | Mae gofal plant ffurfiol yn cynnwys y gofal a ddarperir mewn/gan: ysgol feithrin; dosbarth meithrin sy'n gysylltiedig ag ysgol gynradd neu ysgol fabanod; dosbarth derbyn; ysgol ddydd, meithrinfa neu uned arbennig; meithrinfa ddydd; cylch chwarae neu ddarpariaeth cyn oed ysgol (gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg); gwarchodwr plant; nani neu 'au pair'; gwarchodwr plant sy'n dod i'r cartref; clwb neu weithgaredd brecwast/ar ôl ysgol; neu glwb/cynllun gwyliau. |
| **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** | Adran o fewn yr awdurdod lleol fel arfer. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth am yr holl wasanaethau sydd ar gael i rieni hyd nes y bydd y plant yn 20 oed, neu'n 25 mlwydd oed os oes ganddynt anabledd. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd yn cadw manylion cyfredol am ddarpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar yn yr ardal leol. Gallant ddarparu cymorth ychwanegol gyda gofal plant ar gyfer plant sydd ag anableddau neu anghenion arbennig, neu ofal plant y tu allan i oriau arferol. |

| | |
|---|---|
| **Oriau gwaith annodweddiadol** | Mae oriau gwaith annodweddiadol yn cyfeirio at unrhyw oriau a weithir cyn 8am, ar ôl 6pm, neu yn ystod y penwythnos. |
| **Rhagfarn cyhoeddi** | Cyhoeddi canlyniadau ymchwil nifer o weithiau, dewis a dethol pa rai i’w cyhoeddi neu gadw rhai yn ôl, fel bod y cofnod gwyddonol yn cael ei ystumio. Er enghraifft, astudiaethau sydd â chanlyniadau cadarnhaol yn fwy tebygol o gael eu cyhoeddi. |

## Crynodeb Gweithredol

1. Ym mis Mawrth 2014, comisiynwyd Miller Research Ltd gan Lywodraeth Cymru i gynnal Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth i archwilio profiadau rhieni/gofalwyr sy'n gweithio oriau annodweddiadol, neu y mae arnynt angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant ag anableddau, o ran eu defnydd o ddarpariaeth gofal plant.

2. Roedd pum amcan penodol i'r Asesiad:

   a) Nodi a darparu disgrifiad manwl o'r prif fathau o rieni / gofalwyr sy'n gweithio oriau annodweddiadol.
   b) Canfod a nodi manylion y problemau gofal plant a wynebir gan y rhieni a nodwyd yn a).
   c) Archwilio a chyflwyno adroddiad ar y rhwystrau (deddfwriaethol neu sefydliadol) sy'n berthnasol i ddarpariaeth gofal plant, a wynebir yn nodweddiadol gan y rhieni / gofalwyr hynny a nodwyd yn a).
   ch) Canfod a nodi manylion y problemau gofal plant a wynebir gan y rhieni / gofalwyr hynny y mae arnynt angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant ag anableddau o ran eu defnydd o ddarpariaeth gofal plant.
   d) Archwilio a chyflwyno adroddiad ar y rhwystrau (deddfwriaethol neu sefydliadol) sy'n berthnasol i ddarpariaeth gofal plant, a wynebir yn nodweddiadol gan y rhieni / gofalwyr hynny a nodir yn ch).

3. Mae'r adolygiad yn cyfuno tystiolaeth o 15 o astudiaethau a gyhoeddwyd gan ffynonellau academaidd, llywodraeth a sefydliadau/elusennau.

4. O ran rhieni[1] sy'n gweithio oriau annodweddiadol, roedd nifer o broblemau cyffredin yn codi o'r sail dystiolaeth:

[1] Cyfeiria'r term 'rhieni' at holl warcheidwaid cyfreithiol plant gan gynnwys rhieni biolegol a gofalwyr cyfreithiol.

- Nid yw rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol yn grŵp unffurf; mae eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau gofal plant, a'r ffactorau sy'n eu rhwystro rhag gwneud hynny, yn gysylltiedig â'u statws cymdeithasol, eu patrwm gwaith a'u rhwydweithiau teuluol;
- Nid oes digon o ddarpariaeth gofal plant ffurfiol ar gael ar adegau annodweddiadol yn enwedig dros nos ac yn gynnar yn y bore;
- Mae'n ddrud iawn i ddefnyddio gofal plant ffurfiol; a gwaethygir y sefyllfa gan y ffaith bod cysylltiad cryf rhwng swyddi sy'n gofyn am batrymau gwaith annodweddiadol, a thâl isel;
- Nid yw'r system credyd treth gwaith yn gallu ymateb i rieni sydd ag oriau gwaith annodweddiadol;
- Y teimlad yw nad yw'r ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael yn ystod oriau annodweddiadol o ansawdd da nac yn addas, yn enwedig darpariaeth dros nos; ac
- Mae'r ddarpariaeth yn anhyblyg.

5. Nododd darparwyr gofal plant eu bod yn ei chael yn anodd cynnal hyfywedd ariannol wrth ddarparu gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol o ystyried y galw afreolaidd a'r ffaith bod costau staffio'n uwch ar yr adegau hyn.

6. Roedd enghreifftiau o arfer gorau yn cynnwys sefydlu rhwydweithiau brocera gwarchodwyr plant a phenodi cydgysylltwyr gofal plant gan gyflogwyr mawr ar gyfer staff sydd â phatrymau gwaith afreolaidd.

7. O ran y ddarpariaeth gofal plant i blant ag anableddau neu anghenion ychwanegol, cododd y themâu canlynol o'r sail dystiolaeth:
   - Nododd y rhieni nad oedd digon o ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, ac ystyrir bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn annigonol i ddarparu ar gyfer anghenion unigol;
   - Mae ffydd y rhieni mewn darpariaeth gofal plant yn fater allweddol, a mynegwyd pryderon ynglŷn â'r ffaith nad oes digon o staff wedi eu hyfforddi'n ddigonol ac nad yw'r lleoliadau'n briodol;

- Nodwyd bod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ddarpariaeth gofal plant yn rhwystr sylweddol: roedd yr ymchwil yn nodi diffyg ymwybyddiaeth o ffynonellau gwybodaeth a chymorth. Nid yw'n eglur a yw barn y rhieni ynglŷn â'r diffyg cymorth yn deillio mewn gwirionedd o ddiffyg ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth sydd ar gael; ac
- Roedd rhwystrau logistaidd hefyd yn effeithio ar y defnydd o ofal plant, er enghraifft, dim digon o gludiant arbenigol neu anawsterau o ran sicrhau cyllid.

8. Nodwyd nifer o fylchau yn y sail dystiolaeth, a gallai gwaith ymchwil meintiol ac ansoddol ychwanegol gynorthwyo i lywio gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn y dyfodol. Yn benodol, mae angen mwy o ymchwil benodol yng Nghymru ynglŷn â'r ddau grŵp er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r canlynol:

- Marchnad lafur Cymru – cwmpas a daearyddiaeth patrymau gwaith annodweddiadol;
- Daearyddiaeth y galw am ofal plant, a'r ddarpariaeth, ledled Cymru;
- Archwiliad manwl o'r problemau allweddol i'r ddau grŵp gan nodi patrymau cyd-destunol penodol e.e. gwahaniaethau rhwng rhanbarthau Cymru ac ardaloedd trefol a gwledig; ac
- Enghreifftiau arfer gorau yng Nghymru a gweddill y DU.

# 1 Cyflwyniad

## Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mawrth 2014, comisiynwyd Miller Research gan gangen Gofal Plant a Chwarae Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru i gynnal Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth ynglŷn â phroblemau gofal plant a wynebir gan rieni/gofalwyr sy'n gweithio oriau annodweddiadol neu sydd â phlant ag anghenion ychwanegol. Nod yr adolygiad oedd cael gwell dealltwriaeth o anghenion y grwpiau hyn yn ogystal â'r graddau y maent yn cael eu diwallu gan fodelau a darpariaeth gofal plant presennol. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i nodi unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth bresennol, ac yn llywio'r camau a gymerir er mwyn cynorthwyo i'w goresgyn.

## Beth yw Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth?

1.2 Mae asesiad o'r fath wedi ei seilio ar egwyddorion adolygiadau systematig - mae'r rhain yn chwilio trwy'r holl ddeunydd darllen perthnasol yn systematig ac yn drylwyr. Er hyn, gan gydnabod bod ar ddefnyddwyr, er enghraifft gwneuthurwyr polisïau, angen y dystiolaeth gyfredol yn gyflymach yn aml nag y byddai amserlenni adolygiad systematig yn ei ganiatáu[2], mae Asesiadau Cyflym o'r Dystiolaeth wedi eu datblygu i'w defnyddio mewn ymchwil a gwerthusiadau polisïau cyhoeddus.

1.3 Mewn Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth, gwneir cyfaddawd yn aml yn y broses chwilio ac ni chynhelir chwiliadau trylwyr ar unwaith. Rhaid cadw mewn cof y gellid bod angen diwygio'r casgliadau ar ôl cynnal adolygiadau mwy systematig a chynhwysfawr (Butler et al. 2004). Yn gryno, nod proses yr Asesiad Cyflym yw casglu darlun mor gywir â phosibl o'r deunydd darllen yn yr amser prin sydd ar gael.

## Amcanion yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth

1.4 Prif nod yr astudiaeth hon yw cael darlun o brofiadau rhieni / gofalwyr sy'n gweithio oriau annodweddiadol, neu y mae arnynt angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant ag anableddau o ran eu defnydd o ddarpariaeth gofal plant.

[2] Mae pecyn cymorth Gwasanaeth Ymchwil y Llywodraeth yn awgrymu y bydd adolygiad systematig llawn yn cymryd rhwng 8 a 12 mis o leiaf; ac Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth yn cymryd rhwng 2 a 6 mis.

1.5 Dyma amcanion penodol yr astudiaeth:

a) Nodi a darparu disgrifiad manwl o'r prif fathau o rieni / gofalwyr sy'n gweithio oriau annodweddiadol.
b) Canfod a nodi manylion y problemau gofal plant a wynebir gan y rhieni a nodwyd yn a).
c) Archwilio a chyflwyno adroddiad ar y rhwystrau (deddfwriaethol neu sefydliadol) sy'n berthnasol i ddarpariaeth gofal plant, a wynebir yn nodweddiadol gan y rhieni / gofalwyr hynny a nodwyd yn a).
ch) Canfod a nodi manylion y problemau gofal plant a wynebir gan y rhieni / gofalwyr hynny y mae arnynt angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant ag anableddau o ran eu defnydd o ddarpariaeth gofal plant.
d) Archwilio a chyflwyno adroddiad ar y rhwystrau (deddfwriaethol neu sefydliadol) sy'n berthnasol i ddarpariaeth gofal plant, a wynebir yn nodweddiadol gan y rhieni / gofalwyr hynny a nodir yn ch).

**Cyd-destun**

1.6 Mae darpariaeth gofal plant fforddiadwy, o ansawdd uchel sydd ar gael yn rhwydd yn rym allweddol o ran sbarduno twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb, a bydd o fudd i rieni a phlant drwy: alluogi rhieni i weithio neu ddilyn hyfforddiant; a chefnogi datblygiad plant yn enwedig ymhlith y rhai hynny o gefndir difreintiedig yn ôl *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (2013a) a *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* (2013b) Llywodraeth Cymru. Er hyn, gall fod yn her i rai grwpiau, er enghraifft rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol a rhieni plant ag anghenion ychwanegol, gael gafael ar ddigon o ddarpariaeth gofal plant fforddiadwy. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod darpariaeth gofal ar gyfer y ddau grŵp yn brin ac yn fwy drud na darpariaeth 'safonol' debyg (Singler 2011, Working Families 2012 a'r Daycare Trust 2007).

1.7 Mae'n flaenoriaeth allweddol yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013a)* Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn haws i bobl allu defnyddio darpariaeth gofal plant fforddiadwy, o ansawdd da. Mae rhaglenni Llywodraeth Cymru, er enghraifft Cymorth a Dechrau'n Deg, eisoes wedi cefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal plant o ansawdd uchel ers sawl blwyddyn, gyda'r bwriad o gynyddu cwmpas Dechrau'n Deg. Mae gwaith yn cael ei wneud i wella ansawdd darpariaeth gofal plant trwy reoleiddio a thrwy roi cefnogaeth i ddatblygu sgiliau a chymwysterau yn y sector. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cydnabod bod patrymau gweithio rhieni'n newid ac o ganlyniad cynigiwyd treialu modelau gwahanol o ofal plant i ddiwallu amrywiol anghenion rhieni. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol i flaenoriaethu cymorth gofal plant i deuluoedd ar incwm isel a theuluoedd â phlant anabl.

1.8 Mae sicrhau bod digon o ddarpariaeth gofal plant ar gael i rai grwpiau yn fater sy'n dod yn fwyfwy arwyddocaol. Yng Nghymru, fel mewn marchnadoedd llafur eraill, mae mathau mwy hyblyg o weithio wedi ymddangos – yn enwedig yn y sector gwasanaeth sy'n tyfu – a hynny'n aml yn cynnwys gweithio oriau annodweddiadol (e.e. y tu allan i batrwm gwaith traddodiadol rhwng 9am a 5pm / bum niwrnod yr wythnos). Mae'r dadansoddiad o'r Arolwg o'r Llafurlu yn y bwletin ystadegol *Average Hours Worked in Wales, 2011* (Llywodraeth Cymru 2012) yn dangos bod cyfran y bobl sy'n gweithio o dan drefniadau amser gweithio annodweddiadol wedi cynyddu o 21.7% yn 2005 i 25.4% o'r bobl gyflogedig yn 2011 (t.13). Dangosir y mathau o weithio annodweddiadol isod, a threfniadau oriau gweithio hyblyg yw'r mwyafrif.

**Tabl 1 Patrymau gwaith pobl gyflogedig, 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru**

| ***Patrwm gwaith*** | ***Canran 2009-11*** |
|---|---|
| *Oriau hyblyg* | *12.3* |
| *Contract oriau blynyddol* | *5.3* |
| *Gweithio yn ystod y tymor* | *4.3* |
| *Rhannu swydd* | *0.6* |
| *Pythefnos naw diwrnod* | *0.2* |
| *Wythnos pedwar diwrnod a hanner* | *0.7* |
| *Contract dim oriau* | *0.6* |
| *Gweithio ar alwad* | *1.3* |
| *Dim o'r rhain* | *74.6* |
| *Holl weithwyr cyflogedig* | *100.0* |

Ffynhonnell: Addaswyd o dabl o ddadansoddiad Llywodraeth Cymru (2012, t13) gan ddefnyddio data o'r Arolwg o'r Llafurlu 2003-11

1.9 Mae gwasanaethau gofal plant i blant sydd ag anghenion ychwanegol yn gallu bod yn brin ac yn llawer drutach na gwasanaethau i blant heb anghenion ychwanegol. Hefyd, mae prinder gwasanaethau gofal plant fforddiadwy sy'n rhwydd eu defnyddio yn golygu bod rhieni plant anabl yn llai tebygol o allu derbyn swydd neu le ar gwrs hyfforddiant (Working Families 2012, Daycare Trust 2007).

# 2 Methodoleg

### Cyflwyniad

2.1 Cynhaliwyd yr Asesiad yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan brotocol pecyn cymorth Gwasanaeth Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Datblygwyd y meini prawf chwilio a'r strategaeth gan Miller Research Ltd ac fe'u mireiniwyd yn dilyn trafodaethau gyda'r grŵp cleientiaid yn Llywodraeth Cymru. Roedd amcanion yr ymchwil yn llywio'r termau chwilio a'r meini prawf ar gyfer cynnwys a hepgor y cytunwyd arnynt (gweler Adran 1.4 a 1.5) a rhoddir rhestr gynhwysfawr o ffynonellau tystiolaeth yn Atodiad A.

### Strategaeth chwilio

2.2 Roedd yr amserlenni ar gyfer yr asesiad hwn yn llawer byrrach na'r rhai hynny a argymhellir gan Wasanaeth Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth – ac o ganlyniad mae'r strategaeth chwilio yn adlewyrchu'r angen i ddarparu adolygiad systematig o ansawdd uchel mewn amser byr.

2.3 Cytunwyd, am resymau ymarferol, i gyfyngu'r chwiliadau i dystiolaeth sydd ar gael yn Saesneg yn unig. Cyfyngwyd y chwiliadau i dystiolaeth a gyhoeddwyd ar ôl 2004 er mwyn sicrhau mai dim ond y data sy'n berthnasol i gyd-destunau polisi cyfredol a ystyriwyd. Cyfyngwyd deunydd darllen anfasnachol i dystiolaeth a gyhoeddwyd gan sefydliadau o Gymru a Lloegr yn unig gan fod chwiliadau cwmpasu ar wefannau Llywodraeth yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon wedi darparu nifer fawr o gyfeiriadau, a byddai wedi bod yn anodd eu sgrinio o fewn y cyfyngiadau amser ac ansawdd.

2.4 Yn gyffredinol, nid oes llawer o waith ymchwil wedi'i gynnal yn hanesyddol i'r materion yr ymdrinnir â nhw gan yr Asesiad (Rutter ac Evans 2012a) ac roedd hyn i'w weld yn benodol yn y diffyg deunydd darllen perthnasol wedi'i adolygu gan gymheiriaid a gynhyrchwyd gan yr

ymchwil. I ymdrin â hyn ehangwyd y chwiliadau am ddeunydd darllen a adolygwyd gan gymheiriaid er mwyn cynnwys astudiaethau o'r tu allan i'r DU.

2.5 Cynhaliwyd yr Asesiad rhwng 10 a 19 Mawrth 2014. Cafwyd 207 o ganlyniadau o'r chwiliad cyntaf gan gynnwys adroddiadau ymchwil, arolygon ac erthyglau cyfnodolion gan sefydliadau a llywodraeth. Gan ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer cynnwys a hepgor, dilynwyd proses gychwynnol o sgrinio teitlau a chrynodebau gan adael 43 cyfeiriad i'w sgrinio trwy broses fwy manwl.

2.6 Roedd yr ail broses sgrinio'n cynnwys adolygiad mwy trylwyr o'r deunyddiau darllen i sicrhau eu bod yn berthnasol i amcanion yr Asesiad. Mae Ffigur 1, Atodiad A yn dangos manylion y broses chwilio a sgrinio, gan gynnwys y rhesymau dros hepgor deunyddiau. Cytunwyd hefyd y byddai deunyddiau darllen o ansawdd isel o safbwynt methodoleg yn cael eu hepgor hefyd (gweler 2.8).

2.7 Cafodd cyfanswm o 15 cyfeiriad eu cynnwys yn yr adolygiad terfynol: wyth yn ymdrin â rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol; pedwar ynglŷn â rhieni â phlant ag anghenion ychwanegol; a thri yn cynnwys y ddau grŵp. Roedd y rhan fwyaf o'r deunyddiau darllen o ffynonellau llywodraeth (cyfanswm o saith); chwech gan elusennau/ sefydliadau; a dau o gyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid. Mae Atodiad B yn dangos manylion llyfryddiaeth a manylion yr astudiaethau ac yn eu rhestru yn ôl y grŵp a'r ffynhonnell.

2.8 Aseswyd ansawdd methodoleg y deunydd darllen gan ddefnyddio fersiwn gryno[3] o fframwaith asesu ansawdd Swyddfa'r Prif Ymchwilydd Cymdeithasol (2003), sy'n ystyried hygrededd, trylwyredd a pherthnasedd astudiaethau ymchwil ansoddol. Cafodd unrhyw ddeunydd darllen â sgôr o lai na 6 eu hepgor o'r adolygiad terfynol gan

[3] Roedd y fframwaith gwreiddiol yn cynnwys 18 o gwestiynau i asesu astudiaethau, a chwtogwyd hyn i 12 cwestiwn allweddol er mwyn adlewyrchu'r amser a oedd ar gael i werthuso'r astudiaethau yn yr Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth hwn

eu bod o ansawdd isel. Gweler y fframwaith asesu ansawdd yn Atodiad C.

2.9 Er bod y rhan fwyaf o’r ymchwil a gynhyrchwyd gan y broses chwilio yn gwbl ansoddol neu’n cynnwys elfen ansoddol sylweddol, roeddem hefyd o’r farn bod y fframwaith hwn yn briodol ar gyfer asesu ansawdd unrhyw ymchwil meintiol gan ei fod yn cynnwys cyfeiriadau at faint samplau a dulliau dethol samplau, gwall a thuedd sydd i gyd yn newidynnau pwysig mewn ymchwil meintiol (Gweler y tablau asesu ansawdd yn Atodiad C).

**Cyfyngiadau**

2.10 Mae’n debygol y bydd natur Asesiadau Cyflym yn arwain at gyfyngiadau, gan y cânt eu llywio gan feini prawf tynn ar gyfer cynnwys a hepgor sy’n nodwedd angenrheidiol o’r broses. Mae’n anorfod y gallai fod bylchau yn y sail dystiolaeth. Er hyn, mae’n arfer da i gynnwys Asesiad Cyflym o’r Dystiolaeth fel rhan o broses ymchwil ehangach drwy ei addasu i fod yn adolygiad systematig llawn neu ei ddefnyddio i hysbysu gweithgarwch cwmpasu sylfaenol ychwanegol.

2.11 Roedd y rhan fwyaf o’r deunydd darllen a gynhyrchwyd gan y chwiliad yn ddeunydd darllen anfasnachol; er hyn roedd ein hasesiad ansawdd yn dangos bod llawer ohono o ansawdd uchel o safbwynt methodoleg ac na ddylid ei ystyried yn israddol o’i gymharu â’r dystiolaeth a adolygwyd gan gymheiriaid. Nodwyd bod chwe astudiaeth o ansawdd uchel, gyda sgôr o rhwng 14 a 18 o bwyntiau yn yr asesiad ansawdd; nodwyd bod y gweddill o ansawdd canolradd, gyda sgôr o rhwng 7 a 13 yn ein hasesiad ansawdd.

2.12 Mae’r Asesiad Cyflym o’r Dystiolaeth yn cynnwys tystiolaeth o rai astudiaethau meintiol arwyddocaol (Huskinson et al. 2014, Booth et al. 2013, Rutter ac Evans 2012a, Cheshire et al. 2011, Working Families 2010, Bryson et al. 2006); ond mae elfennau ansoddol sylweddol i’r mwyafrif helaeth o’r dystiolaeth a gasglwyd. Mae angen ystyried i ba raddau y gellir cyffredinoli data o ymchwil o’r fath a’i gymhwyso i’r

boblogaeth gyfan. Er hyn, mae ymchwil ansoddol yn ein galluogi i archwilio problemau a phrofiadau'r ddau grŵp a dod i'w deall, mewn modd na ellid ei wneud o reidrwydd trwy ymholiad meintiol. Gallai hefyd nodi materion allweddol y gellid cynnal mwy o brofion arnynt drwy ymchwil meintiol.

2.13 Wrth ystyried canfyddiadau tystiolaeth o'r tu allan i'r DU (Moss 2009, Le Bihan a Martin 2004) dylid cadw mewn cof bod y system lles cymdeithasol a'r ddarpariaeth gofal plant yn debygol o fod yn wahanol i gyd-destun y DU. Hefyd, dylid bod yn ofalus gyda pheth o'r dystiolaeth hŷn (Daycare Trust 2007, Bryson et al. 2006, Dickens et al. 2005) gan fod y cyd-destun economaidd a'r polisïau yn debygol o fod wedi newid ers cynnal y gwaith ymchwil.

# 3 Themâu Allweddol – Rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol

## Cyflwyniad

3.1 Roedd tri nod i'r Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth mewn cysylltiad â rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol (Llywodraeth Cymru 2014):

a. Nodi a darparu disgrifiad manwl o'r prif fathau o rieni/gofalwyr sy'n gweithio oriau annodweddiadol.
b. Canfod a nodi manylion y problemau gofal plant a wynebir gan y rhieni/gofalwyr a nodwyd yn a).
c. Archwilio a chyflwyno adroddiad ar y rhwystrau (deddfwriaethol neu sefydliadol) sy'n berthnasol i ddarpariaeth gofal plant a wynebir yn nodweddiadol gan y rhieni hynny a nodwyd yn a).

3.2 Roedd sail y dystiolaeth ar gyfer y problemau gofal plant a phrofiadau rhieni/gofalwyr sy'n gweithio oriau annodweddiadol wedi ei rhannu'n fras rhwng astudiaethau a gomisiynwyd gan adrannau a chyrff y llywodraeth (Huskinson et al. 2014, Booth et al. 2013, Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol 2009, Bryson et al. 2006, Dickens et al. 2005) a'r astudiaethau a gomisiynwyd gan elusennau a sefydliadau anllywodraethol eraill (Rutter ac Evans 2012a a 2012b, Rutter a Stocker 2012 a Singler 2011) . Roedd dwy erthygl a adolygwyd gan gymheiriaid yn edrych ar brofiadau yn Seland Newydd (Moss 2009) ac yn Ffrainc, y Ffindir a Phortiwgal (Le Bihan a Martin 2004). Dim ond un astudiaeth benodol i Gymru a gafodd ei chynnwys (Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol 2009); ac roedd nifer o astudiaethau'n cynnal ymchwil yn Lloegr yn unig (Huskinson et al. 2014, Dickens et al. 2005, Bryson et al. 2006).

**Tabl 2 Astudiaethau ynglŷn â darpariaeth gofal plant i rieni/gofalwyr sy'n gweithio oriau annodweddiadol**

| | **Astudiaeth** | **Asesiad Ansawdd** |
|---|---|---|
| 1 | Rutter, J., ac Evans, B. (2012a) *Improving our understanding of informal childcare in the UK.* Llundain: Daycare Trust | Uchel |
| 2 | Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2009) *Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru 2009.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru | Uchel |
| 3 | Singler, R. (2011) *Open all hours: flexible childcare in the 24/7 era.* Llundain: Daycare Trust | Uchel |
| 4 | Dickens, S., Taylor, J., a La Valle, I. (2005) *Local childcare markets: A longitudinal study.* Llundain: Yr Adran Addysg | Uchel |
| 5 | Moss, J. (2009) *Juggling acts: how parents working non-standard hours arrange care for their pre-school children* Social Policy Journal of New Zealand; Mehefin 2009, | Uchel |
| 6 | Booth, C., Kostadintcheva, K., Knox, K., a Bram, B. (2013) *Parents' views and experiences of childcare*. Llundain: Yr Adran Addysg | Canolig |
| 7 | Huskinson, T., Kostadintcheva, K., Greevy, H., Salmon, C. Dobie, S. Medien, K., Gilby, N., Littlewood, M., a D'Souza, J. (2014) *Childcare and early years survey of parents 2012-13.* Llundain: Yr Adran Addysg | Canolig |
| 8 | Bryson, C., Kazimirski, A., a Southwood, H. (2006) *Childcare and Early Years Provision: A study of parents' use, views and experience*. Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau | Canolig |
| 9 | Le Bihan, B., a Martin, C. (2004). *Atypical working hours: Consequences for childcare arrangements.* Social Policy and Administration, 38(6), 565 - 590. | Canolig |
| 10 | Rutter, J. a Stocker, K. (2014) *Childcare Cost Survey 2014.* Llundain: Family and Childcare Trust | Canolig |
| 11 | Rutter, J., ac Evans, B. (2012b) *Childcare for Parents with Atypical Work Patterns: The need for flexibility.* Llundain: Daycare Trust | Canolig |

## Diffiniadau

3.3 Cyn asesu'r sail dystiolaeth sy'n gysylltiedig â phroblemau a phrofiadau rhieni/gofalwyr sy'n gweithio oriau annodweddiadol wrth ddefnyddio gofal plant, mae'n ddefnyddiol archwilio ac egluro nifer o gysyniadau allweddol, gan gynnwys yr hyn a olygir gan: weithio annodweddiadol; gofal plant; a darparwyr gofal plant.

*Beth yw oriau gwaith annodweddiadol?*

3.4 Er bod yr union ddiffiniadau o oriau gwaith annodweddiadol yn amrywio yn y sail dystiolaeth, roedd consensws eang ei fod yn cynnwys unrhyw oriau y tu allan i 8am-5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn eu harolwg eang o bron i 7000 o rieni â phlant o dan 15 oed yn Lloegr, rhoddodd Huskinson et al. (2014), ystyriaeth hefyd i ba mor aml yr oedd y rhieni'n gwneud gwaith annodweddiadol er mwyn ei wneud yn fwy

penodol, a diystyrwyd cyfranogwyr a oedd yn gweithio ychydig o oriau ychwanegol a hynny'n annhebygol o effeithio'n sylweddol ar drefniadau gofal plant. Eu diffiniad oedd:

> *"..working before 8am or after 6pm at least three days a week or every Saturday and Sunday"* (t.23)

3.5 Yn Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru (Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol 2009), diffiniwyd gwaith annodweddiadol fel gweithio yn gynnar yn y bore a/neu fin nos 'fel rheol' neu 'weithiau' yn ystod yr wythnos, a/neu 'fel rheol' neu 'weithiau' ar unrhyw adeg yn ystod y penwythnos. Roedd Bryson et al. (2006) yn diffinio oriau gwaith annodweddiadol yn waith cyn 8am, ar ôl 6pm neu yn ystod y penwythnos. Mae diffiniad Le Bihan a Martin's (2004) fel a ganlyn:

> *"by atypical working hours we mean all situations where people have to work at times which are usually reserved for family or rest: working very early in the morning (before 8 a.m.), late in the evening (after 6 p.m.), during the night, on Saturdays and/or on Sundays"* (tt.566-7)

3.6 Roedd Singler (2011) rhywfaint yn fwy penodol wrth ddiffinio oriau gwaith annodweddiadol fel a ganlyn:

> *"..any hours worked outside of the standard day (8am – 6pm) including early mornings, late evenings, overnight, weekends and irregular shift work"* (t.3) .

3.7 Roedd ymchwil Moss (2009) yn Seland Newydd yn ystyried oriau annodweddiadol fel unrhyw waith y tu allan i 8am - 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener neu lle mae'r oriau'n afreolaidd, (gwaith sifft cylchdro er enghraifft), ac yn anodd eu rhagweld o bosibl. Mae Rutter ac Evans (2012 a a b) yn cyfeirio at:

> *"…agency working, zero hours contracts, workers who have only been able to secure short-term employment, some of those working in the informal economy and some self-employed workers "* (2012b t.4).

3.8 Roeddent yn dadlau hefyd y gall oriau 'nodweddiadol' droi’n oriau annodweddiadol trwy dreulio cyfnodau o awr yn teithio i'r gwaith, ac y gallai patrymau gwaith annodweddiadol fod yn rhai wedi eu cynllunio ac yn rhai a gyflwynir ar fyr rybudd (ibid).

*Mathau o ofal*

3.9 Gall gofal plant fod yn ffurfiol ac yn anffurfiol a gall amrywiaeth o ddarparwyr gynnig pob un o'r mathau o ofal. Mae Arolwg Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru (Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol  2009) yn darparu teipoleg ddefnyddiol o'r mathau o ddarparwr gofal plant, a rhoddir crynodeb yn Nhabl 3 isod.

**Tabl 3 Teipoleg darparwyr gofal plant**

| **Darparwyr ffurfiol** | **Darparwyr anffurfiol** |
|---|---|
| • Ysgol feithrin<br>• Dosbarth meithrin sy’n gysylltiedig ag ysgol gynradd neu ysgol fabanod<br>• Dosbarth derbyn<br>• Ysgol ddydd, meithrinfa neu uned arbennig<br>• Meithrinfa ddydd<br>• Cylch chwarae neu ddarpariaeth cyn oed ysgol (gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg)<br>• Gwarchodwr plant<br>• Nani neu ‘au pair'<br>• Gwarchodwr plant yn dod i'r cartref<br>• Clwb neu weithgaredd brecwast/ar ôl yr ysgol<br>• Clwb/cynllun gwyliau. | • Cyn-ŵr/wraig/gymar/rhiant arall y plentyn (nad yw'n byw gyda'r teulu hwn)<br>• Neiniau a/neu deidiau’r plentyn<br>• Brawd/chwaer hŷn y plentyn<br>• Perthynas arall<br>• Ffrind neu gymydog. |

Ffynhonnell: Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol 2009, t14-15

3.10 Roedd y sail dystiolaeth yn dangos bod yna alw sylweddol nad yw'n cael ei fodloni am ofal plant ar adegau annodweddiadol (Singler 2011, Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol  2009, Bryson et al. 2006). Canfu Singler (2011) a Moss (2009) fod yn well gan rieni ddefnyddio gofal ffurfiol (roedd meithrinfeydd dydd yn arbennig o boblogaidd) ond eu bod yn defnyddio gofal anffurfiol yn aml yn ystod oriau annodweddiadol. Mae hyn yn dangos perthynas gref rhwng y cynnydd yn nifer y rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol a'r defnydd cynyddol o ofal anffurfiol o'i gymharu â gofal ffurfiol (Rutter ac Evans

2012a a b, Bryson et al. 2006). Yn ogystal, canfu Bryson et al. fod cysylltiad rhwng gweithio ar ôl 6pm a'r defnydd cynyddol o'r ddau fath o ofal plant, tra'r oedd gweithio cyn 8am ac yn ystod y penwythnos yn gysylltiedig â mwy o ddefnydd o ofal anffurfiol yn unig. Mae hyn yn amlygu swyddogaeth gofal anffurfiol ar adeg pan nad yw gofal ffurfiol ar gael i'r un graddau.

**Cwmpas gwaith annodweddiadol**

3.11 Mae cwmpas y gwaith annodweddiadol a nodir yn y sail dystiolaeth derfynol yn amrywio. Canfu arolwg Huskinson et al. (2014) o rieni yn Lloegr fod 51% o'r mamau sy'n gweithio, yn gweithio oriau annodweddiadol. Canfu ymchwil y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2009) yng Nghymru fod 67% o'r mamau a gymerodd ran yn eu harolwg yn gweithio oriau annodweddiadol.

3.12 Cynhaliodd Rutter ac Evans (2012b) is-ddadansoddiad o ddata'r Arolwg o'r Llafurlu ar gyfer eu hymchwil a gomisiynwyd gan y Daycare Trust, a chanfod bod 35.8% o'r bobl sydd mewn cyflogaeth wedi gweithio oriau ychwanegol ac mai pobl hunangyflogedig a oedd yn fwyaf tebygol o fod yn gweithio mwy na 45 awr yr wythnos.

3.13 Dadansoddodd Singler (2011) ddata'r Arolwg o'r Llafurlu ar ran y Daycare Trust[4] hefyd a chanfu fod: 16% o rieni yn gweithio sifftiau; bod 10% yn gweithio mwy na 40 awr yr wythnos; a bod 40% o rieni yn gweithio oriau sy'n amrywio o wythnos i wythnos. Er nad yw'r patrymau gwaith hyn i gyd yn digwydd yn ystod oriau annodweddiadol, roeddent yn cydnabod eu bod yn dal yn debygol o effeithio ar y galw am ofal plant a pheri bod y galw'n afreolaidd ac yn amhosibl ei ragweld.

3.14 Nid yw oriau gwaith annodweddiadol yn ffenomen newydd nac ychwaith yn un sydd wedi ei chyfyngu i'r DU; er enghraifft, mae Moss (2009) yn cyfeirio at ddata llywodraeth Seland Newydd o 2004 a ganfu fod 80% o'r 2,000 o bobl a ymatebodd i'r arolwg yn gweithio oriau amrywiol neu annodweddiadol. Ymchwiliodd Le Bihan a Martin (2004) i effaith oriau gwaith annodweddiadol ar

[4] Yn 2012 unodd y Daycare Trust a'r Family and Parenting Institute i sefydlu'r Family and Childcare Trust.

rieni yn y Ffindir, Ffrainc a Phortiwgal. Ar y pryd, canfuwyd bod gan y Ffindir gyfran uwch na chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd o deuluoedd ag o leiaf un rhiant a oedd yn gweithio oriau annodweddiadol.[5].

**Patrymau gwaith annodweddiadol.**

3.15 Amcangyfrifwyd bod bron i 40% o’r rhai a ymatebodd i'r Arolwg o’r Llafurlu mewn rhyw fath o waith dros dro, gyda 21% o'r rhain yn nodi eu bod yn weithwyr dros dro, 18% yn gwneud gwaith asiantaeth a 4% yn weithwyr tymhorol (Rutter ac Evans 2012b, t.5). Roedd 14% o'r rhai a ymatebodd i'r Arolwg yn gweithio sifftiau gan amlaf yn ystod eu prif swydd ac roedd gwaith sifft yn fwy cyffredin ymysg y rhai a oedd yn gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, lletygarwch a gweithgynhyrchu (ibid).

3.16 Roedd gan ganran fechan iawn (0.4%) o'r rhai a gymerodd ran yn yr Arolwg o’r Llafurlu gontractau dim oriau; roedd canran ychydig yn uwch (1.8%) yn gorfod bod 'ar alwad'. Roedd contractau dim oriau fwyaf cyffredin mewn galwedigaethau heb sgiliau, lletygarwch ac iechyd a gofal cymdeithasol (ibid, t.5)

3.17 Canfu’r Arolwg Plant a’r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru mai gwaith gyda'r nos oedd fwyaf cyffredin ymysg y bobl a oedd yn gweithio oriau annodweddiadol, ac yna gweithio ar ddyddiau Sadwrn; roedd gweithio boreau (cyn 8am) neu ddyddiau Sul yn llai cyffredin (Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol 2009). Mae hyn yn adlewyrchu is-ddadansoddiad Rutter ac Evans (2012b) o ddata'r Arolwg o'r Llafurlu a ganfu fod bron i 30% o'r rhai mewn gwaith yn gweithio ar ddydd Sadwrn fel arfer.

**Pwy sy'n gweithio oriau annodweddiadol?**

3.18 Gwybodaeth gyfyngedig a oedd ar gael ynglŷn â'r mathau o swyddi neu sectorau a oedd yn cyflogi rhieni i weithio oriau annodweddiadol. Canfu is-ddadansoddiad Singler (2011) o'r Arolwg o’r Llafurlu mai rheolwyr ac uwch-swyddogion oedd y grŵp a oedd yn fwyaf tebygol o weithio dros 40 awr yr

[5] Dylid cadw mewn cof y ffaith bod gan y Ffindir ddarpariaeth gofal plant statudol 24 awr y dydd.

wythnos, ac yna'r bobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau prosesu, peirianwaith a pheiriannau, a'r bobl mewn galwedigaethau proffesiynol. Roedd y bobl a oedd yn gweithio yn y galwedigaethau crefftau medrus hefyd yn debygol o fod yn gweithio'r oriau hyn (t.14).

3.19 Mae'r sail dystiolaeth yn cyflwyno tystiolaeth gymysg o statws priodasol a/neu incwm y bobl sy'n gweithio oriau annodweddiadol. Er enghraifft, er na chanfu Arolwg y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2009) unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng mamau â chymar a mamau sy’n unig riant o ran pa mor gyffredin yr oedd gwaith annodweddiadol; canfu Singler (2011) fod unig rieni yn fwy tebygol o fod mewn swyddi sy'n gofyn eu bod yn gweithio oriau annodweddiadol, yn arbennig os oes ganddynt gymysgedd o blant sy'n ddibynnol arnynt (o dan 16) a phlant nad ydynt yn ddibynnol arnynt (o dan 16). Mae hyn yn awgrymu y gallai'r plant hŷn fod yn darparu gofal plant anffurfiol yn yr achosion hyn (t.59).

3.20 Awgrymodd Singler (2011) fod rhieni sydd mewn safle gwan yn y farchnad lafur yn fwy tebygol o fod mewn swyddi sy'n gofyn eu bod yn gweithio o leiaf rywfaint o oriau annodweddiadol. Mae hyn yn awgrymu y daw llawer o'r galw am ofal plant oriau annodweddiadol gan grwpiau incwm isel (t.60). O ganlyniad i hynny, er ei fod yn cydnabod bod angen rhagor o waith ymchwil, dangosodd Singler y gallai’r ffaith bod pobl yn unig riant neu’n dod o gefndir ethnig lleiafrifol fod yn ddwy ffactor sy’n rhagfynegi y gallent fod yn gweithio oriau annodweddiadol, oherwydd bod y ddau grŵp yn tueddu i fod mewn safle gwan yn y farchnad lafur (ibid). Yn ogystal, roedd unig rieni a oedd yn gweithio oriau annodweddiadol yn llai tebygol o ddefnyddio gofal plant anffurfiol gan nad ydynt mewn sefyllfa i rannu dyletswyddau gofal plant gyda’u cymar (Singler 2011). Awgrymodd ymchwil gynharach gan Bryson et al. (2006, t.142) fod y defnydd o ofal plant fin nos ac yn ystod y penwythnos yn fwy cysylltiedig â theuluoedd incwm isel ac unig rieni, a bod unig rieni, yn enwedig, yn dewis gofal plant anffurfiol ar yr adegau hyn, er gwaethaf y ffaith nad oedd incwm teuluoedd o reidrwydd yn dylanwadu ar ba un a oedd eu horiau annodweddiadol yn achosi problemau o ran gofal plant.

**Problemau a phrofiadau**

3.21 Nid yw'n syndod bod y sail dystiolaeth yn cadarnhau bod gweithio oriau annodweddiadol yn achosi problemau i rieni wrth wneud trefniadau gofal plant (Huskinson et al. 2014, Singler 2011, Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol 2009, Bryson et al. 2006, Booth et al. 2005). Canfu Dickens et al. (2005) nad oedd darpariaeth gofal plant yn cynnig yr hyblygrwydd angenrheidiol, hyd yn oed lle'r oedd gwaith sifft a gwaith penwythnos yn gyffredin.

3.22 Cadarnhawyd teimladau rhieni nad oes digon o ofal plant ar gyfer pobl sy'n gweithio oriau annodweddiadol gan arolwg Rutter a Stocker yn 2014 o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd pob awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Gwelwyd bod 13% o awdurdodau lleol y tair gwlad gyda'i gilydd yn hysbysu nad oedd digon o ofal plant ar gyfer oriau annodweddiadol, sef 14% yn Lloegr, 9% yn yr Alban a 6% yng Nghymru (t.16).

3.23 Canfu Bryson et al. (2006, t.141) mai unig rieni a oedd yn gweithio yn ystod y penwythnosau a oedd yn cael yr anhawster mwyaf gyda gofal plant. Yn ogystal, roedd teuluoedd lle'r oedd y ddau riant yn ennill cyflog ac yn gweithio oriau annodweddiadol, a theuluoedd lle'r oedd y ddau riant yn ennill cyflog ac un yn gweithio boreau cynnar yn fwy tebygol na theuluoedd lle'r oedd un rhiant yn ennill cyflog o weld bod gweithio cyn 8am yn achosi problemau gyda threfniadau gofal plant.

3.24 Dywedodd rhieni a gymerodd ran yn ymchwil Singler (2011) (t. 21):

> *"The childcare facility is not open before 8.00am and shuts at 6.00pm – nothing [is] available before or after these hours. I start a shift at 8.00am and finish shifts at 8.00pm."*
>
> *"Childcare is only available Monday to Friday, 7.30am–6.00pm. I work weekends which can cause an issue."*

*“Most nurseries/crèches only open at about 7.30 or 8.00am and close at 6.00pm. I have had to alter my working day to allow me to pick up my son from the nursery ".*

3.25 Roedd maint y problemau'n amrywio yn ôl yr amser o'r dydd yr oedd angen gofal plant. Er enghraifft, teimlwyd ei bod yn anoddach dod o hyd i ofal plant cyn 8am ac ar ôl 6pm yn ystod yr wythnos nag ar y penwythnosau, ac roedd gofal plant dros nos yn broblem sylweddol i rieni (Huskinson et al. 2014, Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol 2009, Singler 2011, Moss 2009).

3.26 Roedd llawer o rieni yn ymdrin â phroblemau gofal plant trwy ofalu am eu plant trwy system o 'sifftiau' gan ddewis trefnu eu sifftiau gwaith neu batrymau gweithio i ddiwallu eu holl anghenion gofal plant (Rutter ac Evans 2012b, Singler 2011, Moss 2009, Le Bihan a Martin 2004). Nid yw'n syndod bod Rutter ac Evans (2012a a b) wedi canfod bod incwm yn dylanwadu ar y strategaethau gofal plant yr oedd pobl yn eu dewis. Gallai teuluoedd ag incwm uwch fforddio nanis yn eu pecyn gofal plant, tra'r oedd teuluoedd ag incwm is yn tueddu i ddibynnu ar rannu'r gofal rhwng y rhieni mewn ‘sifftiau’ a defnyddio darpariaeth anffurfiol (2012b, t.9).

3.27 Yn ogystal, gall y math o ofal yr hoffai rhieni ei gael amrywio gan ddibynnu pryd y byddent yn hoffi ei gael. Er enghraifft, tueddai'r rhieni yn ymchwil Singler a oedd yn gweithio'n gynnar yn y boreau i fod eisiau gofalwyr a allai ddod i'w cartref ar yr adegau hyn er mwyn tarfu ar y plant cyn lleied â phosibl (2011, t.23). Canfu ymchwil Rutter ac Evans (2012b) hefyd fod yn well gan lawer o rieni a gweithwyr sifft yn benodol ofal yn y cartref am yr un rhesymau.

3.28 Wrth adolygu’r sail dystiolaeth gwelwyd nifer o themâu cyffredin mewn cysylltiad â phroblemau a phrofiadau rheini/ gofalwyr sy'n gweithio oriau annodweddiadol a’u defnydd o ddarpariaeth gofal plant:

- dim digon o ofal cydgysylltiedig;
- pa mor anhyblyg yw’r ddarpariaeth;
- pa mor addas yw’r gofal; a
- rhwystrau ariannol.

*Dim digon o ofal cydgysylltiedig*

3.29 Nodwyd, yn nifer o'r astudiaethau a adolygwyd (Singler 2011, Moss 2009, Booth et al. 2005), bod prinder gofal cydgysylltiedig, megis clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol, yn broblem

> *“Between 3.00 pm and 5.00 pm is my real Achilles heel. It’s quite stressful actually. Because I’ve got no immediate care. From 5.00 pm the previous night till 3.30 pm the next day I’ve got care and I’m covered. Between 3.00 pm and 5.00 pm it’s a bit of a stressful time so if anything were to happen between those times it’s going to take me longer to get someone to come and look after them."* (Moss 2009, t.76)

3.30 Dywedodd rhieni y gallai gofal cydgysylltiedig ddarparu ar gyfer oriau gwaith annodweddiadol llawer o rieni ac roeddynt yn ei ystyried yn amgylchedd diogel ac yn llawer mwy fforddiadwy na darpariaeth oriau annodweddiadol mewn meithrinfa (Singler 2011).

*Darpariaeth anhyblyg*

3.31 Fel yr amlygir yn adran 3.15, mae patrymau gwaith llawer o'r rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol yn amrywio, ac felly bydd eu hanghenion gofal plant yn amrywio hefyd. O ganlyniad i hyn, dywedodd nifer o rieni eu bod yn cael trafferth cael gafael ar ofal plant, gan nad yw darparwyr ffurfiol yn ddigon hyblyg i ddiwallu’r angen hwn. Yn aml bydd angen trefnu a thalu ymlaen llaw ac yn aml nid yw gwarchodwyr plant ar gael ar fyr rybudd (Singer 2011, Moss 2009). Nododd Moss (2009) fod gwaith ar alwad a gwaith tymhorol yn benodol yn golygu ei bod yn llawer anos i rieni gynllunio ymlaen llaw a gwneud trefniadau gofal plant. Meddai'r rhieni:

> *"Although we have daycare, it doesn't really help us at all with work as such. The hours just don't cover what we do … it is not ever going to cover the hours that I work."* (Moss 2009, t.70)

> *"My experience is that childcare providers have little ability to respond to changes in schedule or extra days needed. Bookings need to be made far in advance and they need to be the same each week."* (Singler 2011, t.21)

*Addasrwydd y gofal*

3.32 Canfu Singler (2011) fod yn well gan y rhieni a oedd angen gofal plant dros nos ddarpariaeth gofal plant yn y cartref, gan eu bod yn ystyried hynny'n fwy cyfleus. Fodd bynnag, nid oedd y rhieni i gyd yn gyfforddus gyda gwarchodwyr plant, gan eu gweld yn llai dibynadwy ac yn destun llai o archwiliadau na lleoliadau grŵp. Meddai un rhiant yn ymchwil Singler (t.23):

> *"If there is only one person providing care, it is difficult to know they are giving the right care, resulting in a situation where it would be the word of the carer's against the children's."*

*Rhwystrau ariannol*

3.33 Roedd pris gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol yn broblem gyffredin ar draws y sail dystiolaeth (Singler 2011, Moss 2009, Le Bihan a Martin 2004). Soniodd un o bob deg o'r rhieni yn ymchwil Singler fod pris darpariaeth gofal plant ar adegau annodweddiadol yn rhwystr, yn arbennig o'i gymharu â phris darpariaeth oriau 'safonol' (t.21):

> *"It costs more to put my child in nursery before 8.00am."*
> *" Most day care settings do not provide affordable childcare beyond sociable hours."*

3.34 Canfu Rutter ac Evans (2012b) hefyd fod teimlad nad oedd natur cymorth credydau treth ar gyfer gofal plant yn ymateb i anghenion rhieni a oedd yn gweithio oriau ysbeidiol neu oriau na ellid eu rhagweld. O ganlyniad, mae rhieni sydd â phatrymau gwaith na ellir eu rhagweld o bosibl yn tueddu i ddibynnu ar ofal anffurfiol yn hytrach na gofal ffurfiol:

> *"My partner is self employed; he's a window cleaner. He had three weeks off because of the snow and I was trying to keep the house going on just my income. I tried to get more on the tax credits, but they froze my claim. I'm being paid by then on what I was earning last year and now I'm not earning as much…. You work 16 hours, but if you drop down to 12 hours, you don't get it [childcare element of Working Tax Credit] at all then. It's difficult if your hours aren't the same every week, my hours are all over the place."* (ibid, t.11)

3.35 Gallai datblygiad Credyd Cynhwysol[6] trwy uno credydau treth a budd-daliadau diweithdra rhwng 2013 a 2017 gynnig cyfleoedd i symleiddio'r system (ibid).

**Effaith ar gyflogaeth**

3.36 Roedd nifer fechan o'r rhieni yn ymchwil Singler (2011) yn ddi-waith a dywedwyd mai gofal plant oedd y rhwystr mwyaf oedd yn eu hatal rhag gallu gweithio. Dywedodd y mwyafrif nad oeddent yn gallu dod o hyd i'r gofal plant fforddiadwy a fyddai'n golygu bod pwrpas iddynt weithio. Rhesymau eraill a roddwyd oedd yr angen i ddod o hyd i ofal plant ar gyfer yr oriau neu'r dyddiau yr oeddent eisiau gweithio, a'r anhawster wrth ddod o hyd i oriau gwaith hyblyg er mwyn gallu defnyddio eu dewis o ofal plant. Mae hyn yn adlais o ymchwil cynharach gan Booth et al. (2005) a ganfu hefyd fod anawsterau rhieni gyda threfniadau gofal plant wedi eu hatal rhag gwneud gwaith cyflogedig neu weithio'r oriau yr oeddent yn dymuno eu gweithio.

3.37 Cefnogir y safbwynt bod gofal plant yn rhwystr sylweddol i gyflogaeth gan Huskinson et al. (2014). Roedd eu hymchwil yn dangos bod gofal plant dibynadwy (ffurfiol ac anffurfiol) yn y ffactor allweddol a ddylanwadodd ar y newid yn statws gweithio mamau a oedd wedi dechrau gweithio (oriau safonol ac annodweddiadol) o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.

[6] Bydd Credyd Cynhwysol ar gael ym mhob rhan o'r DU erbyn 2016 ac yn y pen draw bydd yn cyflwyno un taliad misol i ddisodli: Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Treth Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Credyd Treth Plant a Budd-dal Tai.

**Rhwystrau rhag darparu gwasanaeth**

3.38 Nodwyd nifer o broblemau sy’n gysylltiedig â chyflwyno darpariaeth gofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol, a gallent fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith polisi'r dyfodol yn y maes hwn. Yn ôl canfyddiadau'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol, roedd ymarferwyr polisi wedi cydnabod y ceir bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer oriau annodweddiadol, ond maent yn cydnabod hefyd ei bod yn anodd dod o hyd i ateb polisi cynaliadwy (Dickens et al. 2005). Roedd ymarferwyr polisi'n cydnabod y gallai fod o gymorth i roi gwell cyngor i ddarparwyr ynglŷn â'r ffordd y gallent gynnig mwy o leoedd hyblyg yn ystod oriau annodweddiadol, ond mai'r gwir oedd, ar adeg y gwaith ymchwil, bod nifer o'r darparwyr yn cael trafferth sefydlu darpariaeth oriau craidd ac yn methu â hyd yn oed ystyried ymestyn y gwasanaethau y tu hwnt i hynny (Dickens et al. 2005).

3.39 Roedd y problemau cysylltiedig â darparu gwasanaeth ar adegau anarferol yn cynnwys: dod o hyd i ddigon o rieni a oedd angen gofal plant yn ystod yr un oriau annodweddiadol er mwyn ei wneud yn ymarferol yn ariannol; natur rhai swyddi (e.e. gwaith sifft) sy’n golygu y gallai anghenion rhieni newid yn aml, ac weithiau ar fyr rybudd, gan ei gwneud yn anodd i ddarparwyr ddefnyddio eu staff yn effeithiol; anawsterau dod o hyd i staff gofal plant a fydd yn barod i weithio oriau annodweddiadol, yn arbennig gan fod gan nifer ohonynt deuluoedd ifanc eu hunain; a’r ffaith ei bod yn fwy drud darparu gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol gan fod angen talu mwy i’r staff. Yn ogystal, o safbwynt y pwynt olaf, mae'r cysylltiad rhwng swyddi sydd ag oriau gwaith annodweddiadol a chyflog isel yn golygu bod llawer o'r rhieni sydd angen y math hwn o ddarpariaeth yn llai tebygol na neb o allu fforddio'r costau uchel (Dickens et al. 2005, Singler 2011). Ar ben hynny, soniodd y darparwyr yn ymchwil Singler fod y broses gofrestru ar gyfer gofal dros nos yn un ffactor sy’n eu rhwystro rhag darparu gwasanaeth.

**Datrys y problemau: arferion gorau**

3.40 Roedd y sail dystiolaeth yn cynnwys rhywfaint o ymchwil i atebion posibl ac enghreifftiau o arferion gorau er mwyn datrys y problemau sy’n gysylltiedig â defnyddio a darparu gofal plant i'r rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol (Rutter ac Evans 2012b, Singler 2011).

3.41 Mae Rutter ac Evans (2012b) yn awgrymu amrywiaeth o opsiynau ar gyfer darpariaeth gofal plant ffurfiol i'r rhai sydd â phatrymau gwaith annodweddiadol: meithrinfeydd a chlybiau brecwast sydd ar agor o 7.30am hyd 7pm; gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol sydd ar agor o 7.30am tan yn hwyrach gyda'r nos; meithrinfeydd sydd ar agor yn ystod y penwythnos neu'n hwyr fin nos; meithrinfeydd sy'n caniatáu hyblygrwydd wrth drefnu lle; a darpariaeth crèche tymhorol i helpu rhieni sydd â phatrymau gweithio ac astudio afreolaidd (t.12). Yn ogystal, roeddent yn awgrymu mai gwarchodwyr plant sydd â'r gallu mwyaf i ddarparu ar gyfer anghenion newidiol y tu allan i oriau arferol; fodd bynnag fe wnaethant sylwi hefyd yn y gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yn Lloegr (ibid).

3.42 Canfuwyd sawl enghraifft o arferion gorau o ran darpariaeth gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol yn y sail dystiolaeth (Singler 2011, tt.48-58). Rhoddir crynodeb o'r enghreifftiau hyn yn ôl astudiaeth yn Nhabl 4.

## Tabl 4 Enghreifftiau arfer gorau

| Astudiaeth | Crynodeb o'r Fenter |
|---|---|
| **Rutter ac Evans (2012b) t.12** | **Gwasanaethau gofal plant 'yn y cartref'**<br>Mewn rhai rhannau o'r DU, mae darparwyr gofal plant preifat a nifer fechan o gyflogwyr wedi dechrau darparu gwasanaethau gofal plant cofrestredig 'yn y cartref'. Mae gwarchodwyr plant cofrestredig neu grwpiau eraill o bobl sy'n gweithio gyda phlant ifanc yn rheolaidd yn darparu gofal plant yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gofalwyr wedi'u cofrestru gydag Ofsted felly mae modd i rieni sydd ag incwm isel wneud cais am elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith hefyd. Mae'r sefydliad sy'n cynnig y gwasanaeth - cwmni preifat neu gyflogwr mawr - yn brocera'r berthynas rhwng y rhiant a'r gofalwr 'yn y cartref'. Mae rhywfaint o gostau sefydlu a chostau gweinyddu ynghlwm wrth wasanaethau o'r fath. |
| **Singler (2011) tt. 48-49** | ***Southwark At Home Childcare Service* (AHCS)**<br>Nod AHCS yw darparu gofal plant hyblyg i rieni neu ofalwyr sy'n gweithio oriau anghymdeithasol a'r rhai sy'n dymuno dilyn hyfforddiant neu addysg er mwyn iddynt allu symud ymlaen i gyflogaeth. Gall y gwasanaeth hefyd ddarparu gofal seibiant i deuluoedd mewn angen. Mae prif gydlynydd y gwasanaeth yn gweithio'n amser llawn, yn pennu darparwyr gofal plant ar gyfer teuluoedd. Mae'r cydlynydd wedi sefydlu cyswllt gyda thua 50 o ddarparwyr hunangyflogedig - y rhan fwyaf ohonynt yn warchodwyr plant cofrestredig (sydd eisoes yn gweithio o 9.00am hyd 5.00pm yn eu cartrefi eu hunain), yr hunangyflogedig a rhai nyrsys meithrinfa sy'n gweithio sifft ddydd arferol. Mae'r gwarchodwyr plant hyn yn gweithio gydag AHCS am fod arnynt eisiau rhywfaint o oriau ychwanegol annodweddiadol er mwyn ychwanegu at eu prif incwm. O ran darparu gofal yng nghartref y plentyn, nid oes angen unrhyw archwiliadau ar wahân i archwiliad manwl y Swyddfa Cofnodion Troseddol a gynhelir gan Ofsted ar gyfer pob gwarchodwr plant (mae pob gwarchodwr plant sydd ar y rhwydwaith wedi cofrestru'n barod). Os bydd gwarchodwr plant yn bwriadu darparu gofal dros nos, bydd angen iddynt grybwyll hyn wrth Ofsted ac mae gofyn iddynt hefyd brynu eu hyswiriant eu hunain er mwyn gweithio yng nghartref y teulu gan eu bod yn hunangyflogedig. Bydd y gofal hwn yn cael ei ddarparu'n bennaf yng nghartref y plentyn ei hun o 6.00am hyd 11.00pm, saith diwrnod yr wythnos, gyda'r opsiwn o ofal dros nos. Caiff rhieni benderfynu a fydd gwarchodwyr plant yn dod i'w cartref nhw ynteu a fydd y plentyn yn mynd i gartref y gwarchodwr plant. |
| **Singler (2011) t.50** | ***London Early Years Foundation* (LEYF)**<br>Elusen sy'n darparu gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar i blant ifanc yn Lloegr yw LEYF. Mae'r oriau agor yn un o'i leoliadau gofal yn hwyrach nag unrhyw un o'i leoliadau eraill (hyd at 10.30pm ar ddydd Llun a dydd Mawrth, 7.30pm ar ddydd Mercher a 6.30pm ar ddydd Iau). Codir rhywfaint yn fwy am unrhyw ofal sy'n cael ei ddarparu ar ôl 6pm, ond mae'r gost yn dal yn gyson â phrisiau cyfartalog yn Llundain. Mae'r staff sy'n gweithio ar ôl 6.00pm yn cael eu talu amser a hanner am eu hymdrechion. Mae'r lleoliad ar agor yn ystod yr oriau hyn am fod y prif gyflogwr yn yr ardal yn cydnabod bod ar staff angen y gwasanaeth hwn. O ganlyniad, gallai'r sefydliad sicrhau'r darparwr y byddai digon o alw. Ni chafodd LEYF unrhyw drafferth yn dod o hyd i staff a oedd yn barod i weithio gyda'r nos am nifer o resymau: cyflog amser a hanner am sifftiau gyda'r nos; roedd staff a oedd yn gallu gweithio'n hyblyg yn cael cychwyn gweithio'n hwyrach y diwrnod canlynol os oeddent yn dymuno; ac roedd staff yn cael eu recriwtio'n lleol o feithrinfeydd LEYF cyfagos. |
| **Singler (2011) t.51** | **Honeybeez – meithrinfa breifat**<br>Meithrinfa breifat sydd ar agor rhwng 7.00am ac 8.00pm yw Meithrinfa Honeybeez. Ar ôl bod yn gweithio i'r GIG a gweld nad oedd gofal plant ar gael i'r bobl a oedd yn gweithio'n hwyrach gyda'r nos, penderfynodd ei reolwr sefydlu meithrinfa i lenwi'r bwlch hwn. Un o nodweddion mwyaf arwyddocaol y lleoliad yw'r hyblygrwydd y mae'n ei gynnig i rieni. Maent yn gofyn yn swyddogol am gyfnod rhybudd o |

| | |
|---|---|
| | bythefnos gan rieni. Fodd bynnag, mewn gwirionedd maent yn derbyn nad oes modd i rieni roi cymaint â hynny o rybudd, yn enwedig y rhai sy'n gweithio i'r GIG (sy'n cael llawer llai o rybudd o'u horiau gwaith). Fel arfer caiff rhieni roi tuag wythnos o rybudd. Mae hyn yn rhoi modd i'r rheolwr drefnu amserlen staff er mwyn sicrhau bod digon o aelodau staff ar gael, yn enwedig yn gynnar yn y bore ac yn hwyr gyda'r nos. Gall y ganolfan ymateb i newidiadau mewn patrymau sifft ac yn y galw trwy gyflogi dau grŵp o staff. Mae wedi bod yn eithaf rhwydd recriwtio staff, gan fod y gweithwyr sy'n gweithio oriau hyblyg yn fyfyrwyr fel arfer, neu heb blant eu hunain ac felly'n hapus i weithio gyda'r nos. |
| **Singler (2011) tt. 52-53** | **Cydgysylltwyr Gofal Plant y GIG**<br>**Dwyrain Canolbarth Lloegr**<br>Swyddogaeth gyffredinol y cydgysylltydd gofal plant yn yr ymddiriedolaeth GIG benodol hon, yw rhoi gwybodaeth i'r rhieni sy'n gweithio i'r ymddiriedolaeth er mwyn iddynt allu dod o hyd i ofal plant addas. Mae eu gwaith hefyd yn golygu cyd-drafod â darparwyr er mwyn helpu i lenwi unrhyw fylchau, cyn belled ag y bo modd, er enghraifft: mae'r ymddiriedolaeth mewn cyswllt â dau neu dri gwarchodwr plant sydd wedi eu cofrestru i ofalu am blant dros nos ac i ddarparu gofal gyda'r nos ac yn ystod y penwythnos os gwneir cais am hynny; mae'n ymateb i'r galw pan fydd trefniadau ffurfiol yn mynd ar chwâl (e.e. nain neu daid yn cael ei tharo/daro'n wael) trwy gyd-drafod â meithrinfa breifat a oedd newydd agor (ac a oedd felly yn y broses o ddatblygu sylfaen cwsmeriaid), er mwyn cadw lle amser llawn ar agor am hanner y pris er mwyn i'r ymddiriedolaeth allu cynnig gofal brys, i un rhiant ar y tro.<br>**Sunderland**<br>Mae'r cydgysylltydd yn gweithio gyda gwarchodwyr plant a meithrinfeydd lleol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ateb galw staff y GIG yn yr ardal. Agwedd arall ar y swydd hon yw cydlynu gofal plant ar gyfer rhieni nad oes ganddynt amser i wneud hynny eu hunain. Mae'r cydgysylltydd yn gofyn i staff lenwi holiadur er mwyn asesu'r galw. Trwy'r holiadur daeth yn amlwg fod sawl aelod o staff yn ei chael yn anodd dod o hyd i ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Ymatebodd y cydgysylltydd i'r broblem hon trwy gysylltu â'r 'cynlluniau chwarae' - lleoliadau preifat gyda gofalwyr cofrestredig. Mae'r ymddiriedolaeth yn talu am y gofal hwn ymlaen llaw ac yna'n ei dynnu o'u cyflogau'r mis canlynol - maent hefyd yn cael gostyngiad o £5 y dydd. Yn ogystal, mae'r cydgysylltydd wedi bod yn cyd-drafod yn eithaf llwyddiannus gyda meithrinfeydd preifat ynglŷn ag aros ar agor yn hirach er mwyn llenwi bylchau yn y gofal. Mae'r darparwyr hyn hefyd yn eithaf hyblyg o ran y dyddiau y caiff rhieni eu defnyddio - gan mai dim ond wythnos o rybudd y gall aelodau staff y GIG ei roi fel arfer. Caiff rhieni ddefnyddio'r feithrinfa ar wahanol ddyddiau bob wythnos – gan roi ychydig iawn o rybudd. Ni chodir tâl ychwanegol am ddefnyddio'r feithrinfa y tu allan i oriau arferol. |
| **Singler (2011) tt. 56- 58** | **Enghreifftiau Awdurdodau Lleol**<br>• Mae nifer o awdurdodau lleol (Swindon, Swydd Derby, Bromley, Barnsley a Rochdale) wedi ceisio mynd i'r afael â'r problemau cysylltiedig â darpariaeth gofal plant hyblyg yng nghynlluniau gweithredu eu Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.<br>• Mae Cyngor Swydd Nottingham wedi creu rhestr o'r gofalwyr plant sydd wedi eu cofrestru i gynnig gofal dros nos yn y sir - gyda dadansoddiad mwy manwl yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant llawn. Fe'i lluniwyd er mwyn helpu i weld sawl darparwr a oedd yn gweithio oriau annodweddiadol yn y sir. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn ddefnyddiol wrth weithio â phartneriaid megis y GIG, Awdurdod yr Heddlu ac ati gan fod y sefydliadau hyn yn cyflogi pobl ar gyfer gweithrediadau 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos ac felly angen gofal plant ar bob adegau o'r dydd. |

**Crynodeb**

3.43 Nid yw'r rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol yn grŵp unffurf; mae eu problemau a'u profiadau o ddefnyddio gofal plant yn gysylltiedig â'u statws cymdeithasol, eu patrwm gwaith a’r rhwydweithiau teulu sydd ganddynt.

3.44 Mae oriau gwaith annodweddiadol yn aml yn gysylltiedig â'r sectorau lletygarwch, iechyd a gofal cymdeithasol a gweithgynhyrchu. Mae'r sail dystiolaeth yn brin ar gyfer problemau'r rhai sy'n gweithio yn y sectorau hynny gyda gofal plant, ac yn rhywbeth y byddai'n werth ei archwilio ymhellach.

3.45 Gwelwyd yn y sail dystiolaeth bod problem allweddol o ran cael gafael ar ofal plant ar oriau annodweddiadol, a'i bod yn arbennig o anodd gyda gofal dros nos ac yn gynnar yn y boreau. Roedd unig rieni’n dweud iddynt gael mwy o drafferth na rhieni a oedd â chymar. O'i gymharu â Lloegr a'r Alban a chyfartaledd y tair gwlad, dywedir mai'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru sydd fwyaf annigonnol i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol.

3.46 Roedd problemau cyffredin a nodwyd gan rieni a oedd yn gweithio oriau annodweddiadol yn cynnwys y canlynol:

- Pris gofal plant ffurfiol; a waethygir gan y cysylltiad rhwng swyddi sy'n gofyn am weithio oriau annodweddiadol a chyflog isel;
- Methiant y system credydau treth i ymateb i rieni sydd â phatrymau gwaith afreolaidd;
- Ansawdd ac addasrwydd ymddangosiadol y ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael yn ystod oriau annodweddiadol, a darpariaeth dros nos yn enwedig; a
- Natur anhyblyg y ddarpariaeth.

3.47 Roedd darparwyr gofal plant yn sôn am nifer o broblemau o ran ymateb i'r galw am ddarpariaeth gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol, gan

gynnwys: cael hyd i staff sydd ar gael ar adegau annodweddiadol a chost eu cyflogi; y galw am ofal plant yn newid yn ystod oriau annodweddiadol gan ei gwneud yn anodd defnyddio staff yn effeithiol; y broses gofrestru, yn arbennig ar gyfer darpariaeth dros nos. Mae'r ffactorau uchod yn ei gwneud yn anodd i ddarparwyr gynnal gwasanaeth sy'n ymarferol yn ariannol.

3.48 Mae enghreifftiau o arfer gorau er mwyn ymdrin â'r problemau hyn yn cynnwys: sefydlu rhwydweithiau brocera gwarchodwyr plant; a sicrhau lefel benodol o alw a chymhorthdal ar gyfer y costau trwy i sefydliadau mawr gydgysylltu darpariaeth gofal plant.

# 4 Themâu Allweddol – Gofal plant i blant ag anghenion ychwanegol

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar brofiadau rhieni plant sydd ag anghenion ychwanegol a'i nod yw:

ch. Canfod a nodi manylion y problemau gofal plant a wynebir gan y rhieni / gofalwyr hynny y mae arnynt angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant ag anableddau o ran eu defnydd o ddarpariaeth gofal plant.

d. Archwilio a chyflwyno adroddiad ar y rhwystrau; (deddfwriaethol neu sefydliadol) sy'n berthnasol i ddarpariaeth gofal plant, a wynebir yn nodweddiadol gan y rhieni / gofalwyr hynny a nodir yn ch).

4.2 Roedd y sail dystiolaeth ynglŷn â phrofiadau rhieni plant sydd ag anghenion ychwanegol yn llai eang ac yn llai cadarn o ran methodoleg na'r astudiaethau ar brofiadau rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol a drafodwyd yn yr adran flaenorol (gweler Tabl 5). Roedd tair o'r pedair astudiaeth a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ofal plant ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol wedi cael eu comisiynu gan elusennau/sefydliadau (NCMA Cymru[7] 2009, Daycare Trust 2007, a Working Families 2012). Ni lwyddodd y chwiliad cwmpasu i nodi unrhyw astudiaethau a adolygwyd gan gymheiriaid ar y pwnc. Un astudiaeth yn unig a oedd yn canolbwyntio ar Gymru (NCMA Cymru 2009), ac roedd y gweddill yn edrych ar Loegr, y DU, ac un ardal sampl benodol a oedd yn rhan o'r gwerthusiad treialu Disabled Children's Access to Childcare (DCATCH) (Cheshire et al. 2010).

---

[7] Y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant, a elwir bellach yn Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)

**Tabl 5 Astudiaethau sy'n ymdrin â darpariaeth gofal plant i blant ag anghenion ychwanegol**

| | Astudiaeth | Asesiad Ansawdd |
|---|---|---|
| 1 | Rutter, J., ac Evans, B. (2012b) *Improving our understanding of informal childcare in the UK.* Llundain: Daycare Trust | Uchel |
| 2 | Cheshire, H., Brown, V., Wollny, I , Ireland, E., Scott, S., a Jessiman, P. (2011) *Impact evaluation of the Disabled Children's Access to Childcare Pilot (DCATCH).* Llundain: Yr Adran Addysg | Uchel |
| 3 | Huskinson, T., Kostadintcheva, K., Greevy, H., Salmon, C., Dobie, S.Medien, K., Gilby, N., Littlewood, M a D'Souza, J. (2014) *Childcare and early years survey of parents 2012-13.* Llundain: Yr Adran Addysg | Canolig |
| 4 | NCMA Cymru (2009) *Gofal Plant i Blant a Phobl Ifanc Anabl.* Caerdydd; NCMA Cymru | Canolig |
| 5 | Rutter, J. a Stocker, K. (2014) *Childcare Cost Survey 2014.* Llundain: Family and Childcare Trust | Canolig |
| 6 | Daycare Trust (2007) *Listening to parents of children with disabilities and special educational needs.* Llundain: London Development Agency | Canolig |
| 7 | Working Families (2012) *Finding Flexibility: parents of disabled children and paid work*. Llundain: Working Families | Canolig |

**Diffiniadau**

4.3 Er bod yr Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth hwn wedi cynnwys anghenion ychwanegol eang, gan gynnwys Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac anableddau, roedd cwmpas y pynciau a drafodir yn amrywio. Roedd peth ymchwil yn canolbwyntio ar anableddau yn unig (Working Families 2012, NCMA Cymru 2009, Cheshire et al. 2011, Evans a Rutter 2012), ond roedd rhai eraill yn gwahaniaethu rhwng AAA, anableddau a/neu salwch hir dymor (Daycare Trust 2007, Huskinson et al. 2014).

4.4 Roedd y diffiniad o 'anabledd' yn amrywio yn yr astudiaethau, er enghraifft yn eu hadroddiad ynglŷn â phrofiadau rhieni plant anabl, defnyddiodd y Daycare Trust (2007) ddiffiniad y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (1995) o 'anabl', pan fo gan unigolyn unrhyw nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith sylweddol a hir dymor ar ei allu ef neu hi i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Yn yr enghraifft hon, roedd yr astudiaeth yn ystyried bod anabledd yn cynnwys holl anghenion corfforol, meddyliol neu anghenion addysgol arbennig (t.8).

Fodd bynnag, yn ymchwil NCMA Cymru (2009), diffiniwyd anabledd yn unol â'r 'Model Cymdeithasol o anabledd' sy'n ystyried anabledd yn agwedd arferol ar fywyd, ac yn gwrthod y syniad bod plant anabl mewn rhyw fodd hanfodol yn 'ddiffygiol' (t.6). Mae hyn yn wahanol i'r model meddygol gan ei fod yn awgrymu mai'r modd y mae cymdeithas wedi ei threfnu, yn hytrach na nam neu wahaniaeth yr unigolyn, sy'n achosi'r anabledd. Diffiniwyd plant anabl a oedd wedi eu cynnwys yn astudiaeth Cynllun Treialu DCATCH gan Cheshire et al. (2011) yn rhai a oedd yn bodloni meini prawf Salwch Hir Dymor sy'n Cyfyngu ar eu Bywydau, a ddiffinnir fel unrhyw gyflwr corfforol neu feddyliol, salwch neu anabledd hir dymor, sy'n debygol o effeithio arnynt yn sylweddol dros gyfnod o 12 mis (t.21).

**Defnyddio gwasanaethau gofal plant ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol**

4.5 Mae Cheshire et al. (2011) a Huskinson et al. (2014) wedi archwilio'r defnydd o ofal plant ar sail difrifoldeb yr anabledd. Yn ôl Cheshire et al. (2011) po fwyaf cymhleth yw anghenion y plentyn, y mwyaf o ddefnydd a wneir o ddarpariaeth ffurfiol (t.24).

4.6 Canfu darnau eraill o ymchwil fod y rhieni'n llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau gofal plant ffurfiol pan oedd yr anghenion yn fwy difrifol neu gymhleth. Canfu Huskinson et al. (2014) nad oedd gwahaniaeth rhwng plant â phroblem iechyd neu anabledd, a phlant heb broblem o'r fath; er hyn roedd yn amrywio yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr anabledd. Roedd y rhai hynny ag anabledd 'nad oedd yn amharu ar fywyd pob dydd' yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau gofal plant ffurfiol, ond roedd y rhai hynny ag anableddau sydd yn 'amharu ar fywyd pob dydd i raddau mwy helaeth' yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau gofal plant ffurfiol na phawb a oedd wedi eu cynnwys yn yr arolwg.

4.7 Canfu ymchwil ansoddol y Daycare Trust (2007) mai ychydig iawn o ddefnydd o wasanaethau gofal plant a wnaed gan rai rhieni â phlant ag anableddau difrifol, yn bennaf oherwydd bod rhai o anghenion y plant yn rhy gymhleth a bod angen llawer o gymorth meddygol neu gymorth unigol arnynt. Roedd rhieni plant ag anableddau difrifol yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau gofal plant ffurfiol heblaw am weithwyr gofal, pan fo'n ofynnol i'r rhieni aros yn y cartref gyda'r gofalwr. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer rhieni plant awtistig, a nododd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws nad oeddynt yn defnyddio gwasanaethau gofal plant o gwbl gan nad oedd digon o ddarpariaeth gofal priodol ar gael (t.15).

4.8 Yn ôl Rutter ac Evans (2012), mae'r defnydd o wasanaethau gofal plant anffurfiol ar gyfer plant anabl yn amhendant ac nid yw'r darlun mor eglur ag yn achos y defnydd o ofal plant ffurfiol. Canfuwyd mai darpariaeth feithrinfa ffurfiol oedd y math o ofal plant a ddefnyddid fwyaf aml ar gyfer plant anabl dan bump oed. Fodd bynnag, mewn astudiaeth gan NCMA Cymru (2009) dim ond ychydig o rieni a gyfwelwyd yng Nghymru a oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol, ac roedd llai fyth yn defnyddio gofal plant anffurfiol.

**Problemau a phrofiadau**

*Dod o hyd i wasanaethau gofal plant*

4.9 Yn llawer o'r adroddiadau a adolygwyd fel rhan o'r Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth hwn, nodwyd bod rhieni'n cael problemau sylweddol wrth ddod o hyd i wasanaethau gofal plant addas i blant ag anghenion ychwanegol. Yng ngwerthusiad cynllun treialu DCATCH, roedd dros 60% o'r rhai a ymatebodd wedi cael anhawster wrth chwilio am wasanaethau gofal plant addas (Cheshire et al. 2011, t.39). Canfu arolwg Working Families (2012) dueddiadau tebyg, ac roedd tua hanner y rhai a ymatebodd yn ei chael yn 'anodd' neu'n 'amhosibl' (t.6).

4.10 Er hyn, mae tystiolaeth o’r Early Years and Childcare Survey 2012-13 (Huskinson et al. 2014), yn gwrthddweud yr astudiaethau hyn i raddau, gan awgrymu bod mwy o rieni o’r farn bod gwasanaethau gofal plant addas ar gael. Roedd yr astudiaeth hon, a gynhelir yn rheolaidd, yn cynnwys 6393 o rieni plant dan 15. Fe’u dewiswyd o’r cofnodion budd-daliadau plant, ac roedd 6% yn rhieni i blant ag anableddau. Roedd 28% o’r rhieni â phlant anabl yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf bod darparwyr gofal plant yn yr ardal a allai ddarparu ar gyfer anabledd eu plentyn, ac roedd 38% yn cytuno neu’n cytuno’n gryf. Yr astudiaeth hon yw’r astudiaeth feintiol fwyaf cadarn a adolygwyd fel rhan o’r Asesiad Cyflym o’r Dystiolaeth hwn gan mai hon yw’r unig astudiaeth â sampl ar hap o rieni o boblogaeth y DU (h.y. pawb sy’n derbyn budd-dal plant)[8].

4.11 Canfu’r Daycare Trust (2007) fod angen bod yn benderfynol yn aml er mwyn dod o hyd i wasanaethau gofal plant addas, a bod y rhai hynny nad oedd ganddynt gymaint o allu i ‘ymladd’ o’r farn nad oeddynt mewn sefyllfa dda i ddod o hyd i wasanaethau gofal plant (e.e. unig rieni, rhieni y mae Saesneg yn ail iaith iddynt ac ati). Roedd yn golygu bod llawer ohonynt yn rhoi’r gorau iddi:

> “*When parents were asked to describe their childcare situations, they frequently spoke of the ‘struggle’, ‘battle’, ‘push’ and ‘fight’.”* (t.27)

4.12 Nodwyd ym mhob un o’r astudiaethau bod gwybodaeth a chymorth annigonol i chwilio am wasanaethau gofal plant yn rhwystro rhieni rhag defnyddio gwasanaethau gofal plant. Canfu Cheshire et al. (2011) fod rhieni yn dueddol o gael gwybodaeth ar lafar, trwy ysgol eu plentyn neu trwy weithwyr proffesiynol, cyn defnyddio ffynonellau gwybodaeth fel y rhyngrwyd neu leoedd cymunedol (e.e. llyfrgell leol, meddygfeydd teuluol). Nid oedd y rhan fwyaf o’r teuluoedd wedi defnyddio’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gael gwybodaeth ynglŷn â gofal plant. Cefnogir y canfyddiadau hyn gan yr Early Years and Childcare

[8] Gweler Atodiad C i gael mwy o fanylion ynglŷn ag asesiad ansawdd yr ymchwil.

Survey 2012-13 (Huskinson et al. 2014) a nododd fod rhieni, yn gyffredinol, yn mynegi bod angen iddynt wneud ymdrech sylweddol er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau gofal plant addas.

4.13 Canfu NCMA Cymru (2009) hefyd mai ychydig o'r rhieni a oedd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, neu a oedd hyd yn oed yn ymwybodol o'r gwasanaeth. Roeddynt yn dueddol o ddibynnu ar gael gwybodaeth berthnasol ar lafar. Nodwyd bod y wybodaeth gynhwysfawr a oedd ar gael ynglŷn â gofal plant i deuluoedd â phlant anabl yn fylchog yng Nghymru, ac nad oedd y wybodaeth yn gyson gan asiantaethau amrywiol (e.e. iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol).

4.14 Mewn enghreifftiau pan oedd gwybodaeth ar gael, canfu'r Daycare Trust (2007) i'r wybodaeth honno fod yn gamarweiniol mewn rhai achosion:

> *"Many parents recalled occasions when they had been given lists of childminders who, when called, said they could not care for their disabled child."* (p.16)

Yn yr un modd, canfu NCMA Cymru (2009) lawer o achosion pan yr oedd lleoliadau gofal plant wedi nodi eu bod yn gallu derbyn plant anabl, ond nad oeddynt yn gallu darparu ar gyfer eu hanghenion penodol mewn gwirionedd.

*Y cyflenwad o wasanaethau gofal plant a nifer y lleoedd sydd ar gael*

4.15 Yn yr astudiaethau a adolygwyd, nododd y rhieni eu bod wedi'i chael yn anodd dod o hyd i leoedd gofal plant addas oherwydd y prinder lleoedd a oedd yn addas ar gyfer anghenion eu plentyn. Roedd tua hanner y rhieni yng ngwerthusiad cynllun treialu DCATCH (Cheshire et al. 2011) wedi nodi diffyg lleoedd yn rheswm am yr anawsterau wrth ddod o hyd i wasanaethau gofal plant (t.41)

4.16 Roedd yr astudiaethau a adolygwyd yn awgrymu bod y ddarpariaeth a oedd ar gael yn amrywio yn ôl y lleoliad. Mewn astudiaeth o brofiadau o chwilio am wasanaethau gofal plant i blant ag anableddau yn Llundain,

canfu'r Daycare Trust (2007) fod nifer y lleoedd gofal plant a oedd ar gael i blant anabl yn anghyson rhwng bwrdeistrefi. Roedd y rhieni o'r farn mai 'lwc' oedd yn pennu pa un a oedd gofal plant priodol ar gael ai peidio.

4.17 Roedd amrywiaeth i'w gweld ledled y DU yn y ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael ar gyfer plant anabl. Cynhaliodd Rutter a Stocker (2014) arolwg o Awdurdodau Lleol a chanfuwyd bod 28% o'r Awdurdodau Lleol yn Lloegr, 18% yn yr Alban a 6% yn unig yng Nghymru yn nodi bod ganddynt ddigon o wasanaethau gofal plant i blant anabl (t.16).

4.18 Roedd sawl astudiaeth yn amlygu diffyg darpariaeth gofal plant ffurfiol ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc anabl (Daycare Trust 2007, Rutter ac Evans 2012, NCMA Cymru 2009). Roedd llawer o rieni wedi cael trafferthion wrth ganfod lleoedd gofal plant priodol ar gyfer oedran eu plentyn, o ystyried bod gofynion gofal rhai plant a phobl ifanc anabl yn parhau neu'n cynyddu wrth iddynt fynd yn hŷn (NCMA Cymru 2009).

4.19 Roedd canfyddiadau Rutter ac Evans (2012) yn cefnogi hyn, gan iddynt ganfod bod plant ag anableddau angen gofal plant yn aml tan eu bod yn 18 oed, ac mai ychydig iawn o wasanaethau gofal plant addas sydd ar gael ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc anabl o'i gymharu â'r lleoedd gofal plant ffurfiol sydd ar gael ar gyfer plant anabl iau. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos plant ag anableddau difrifol. Er hyn, ychydig iawn o'r astudiaethau a oedd yn egluro'r hyn a olygir gan 'blant hŷn' heblaw am Rutter ac Evans (2012) a oedd yn nodi bod rhai rhieni yn dweud bod llai o gyfleoedd i blant dros 11 oed. Canfu ymchwil y Daycare Trust (2007) hefyd nad oedd digon o ddarpariaeth gofal plant ar gyfer plant anabl yn eu harddegau.

4.20 Y rhwystr a nodwyd fwyaf aml gan rieni oedd canfod lleoedd gofal plant a oedd yn darparu ar gyfer anghenion penodol y plentyn. Wrth archwilio'r rhesymau pam nad oedd y rhieni wedi gallu dod o hyd i

leoedd gofal plant addas, canfu Cheshire et al. (2011) mai ‘diffyg gofal plant priodol’ (e.e. diffyg staff â sgiliau neu ddiffyg cyfleusterau priodol) oedd y rheswm pam nad oedd 84% o’r rheini wedi gallu canfod gofal plant addas. Nododd NCMA Cymru (2009) hefyd fod rhieni yn dymuno dod o hyd i ofal plant, ond bod llawer ohonynt yn dweud ei bod yn anodd canfod gofal plant a oedd yn diwallu anghenion eu plentyn.

4.21 Roedd y rhan fwyaf o’r astudiaethau yn awgrymu bod yr anhawster o ran dod o hyd i ofal plant sy’n darparu ar gyfer anghenion y plentyn yn amrywio yn dibynnu ar ddifrifoldeb anabledd y plentyn; er hyn nid oedd yr astudiaethau a adolygwyd yn archwilio’r gwahaniaeth hwn yn fanwl. Er nad oedd hynny’n arwydd o ba un a lwyddwyd i ddod o hyd i ofal plant, mae llawer o astudiaethau wedi ystyried y defnydd o ofal plant ar sail difrifoldeb yr anabledd (gweler paragraff 4.5 – 4.7).

*Ffydd rhieni*

4.22 Mae’n ymddangos bod ffydd mewn darparwyr a’u gallu i ymdopi â chyflyrau neu ymddygiad penodol yn ffactor allweddol yn hyder y rhieni i ddefnyddio gwasanaethau gofal plant ffurfiol. Canfu sawl astudiaeth fod rhieni yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau gofal plant oherwydd eu bod o’r farn bod eu plant yn agored i niwed mewn modd unigryw (Daycare Trust 2007, NCMA 2009). Mewn llawer o achosion, roedd hyder yn y lleoliad gofal plant wedi ei seilio ar y ffaith bod yno ddigon o weithwyr wedi eu hyfforddi, neu ddigon o staff i ddarparu’r gymhareb gywir o staff a phlant (Daycare Trust 2007). Canfu Rutter ac Evans (2012) ei bod yn aml yn well gan rieni plant anabl ddefnyddio gofal plant anffurfiol gan eu bod yn gallu ymddiried yn aelodau’r teulu neu bobl a oedd eisoes yn gyfarwydd â’u plentyn a’i anghenion.

4.23 Roedd llawer o’r pryderon a fynegwyd gan rieni wedi eu seilio ar y syniad nad oedd y staff wedi eu hyfforddi’n ddigonol, neu nad oedd gan y lleoliad gyfleusterau digonol ar gyfer eu plentyn. Roedd yn ymddangos bod barn y rhieni nad oedd y gweithwyr wedi eu hyfforddi’n ddigonol neu nad oedd ganddynt y ddealltwriaeth a’r profiad angenrheidiol, yn lleihau’r

ffydd a'r hyder a oedd gan rieni mewn darparwyr gofal plant (Daycare Trust 2007, NCMA Cymru 2009, Cheshire 2011).

> *"With a child with special needs I've struggled with specialists who lack…never mind if they're qualified, lack an understanding and patience to deal with them. That statement doesn't even touch the sides."* (Daycare Trust 2007, t.18).

4.24 Canfu Working Families (2012) fod y rhai a ymatebodd o'r farn nad yw lleoliadau gofal plant yn deall anghenion eu plant/pobl ifanc. Yn benodol, roedd hyn yn wir am rieni'r rhai hynny â llawer o anghenion meddygol, rhai ar y sbectrwm awtistiaeth a phlant hŷn/pobl ifanc.

4.25 Yn rhan o astudiaeth NCMA Cymru (2009) hefyd, cynhaliwyd arolwg ymhlith darparwyr tri awdurdod yng Nghymru (Powys, Merthyr Tudful a Chasnewydd) a chanfuwyd bod y rhan fwyaf o'r staff wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol ar gyfer gweithio â phlant a phobl ifanc anabl, ond ei fod yn aml yn rhan o gwrs gofal plant galwedigaethol mwy cyffredinol. Nid oedd gan lawer o ddarparwyr hyfforddiant mwy manwl ac roedd lefel yr hyfforddiant yr oedd y staff wedi ei dderbyn yn anghyson yn y tair ardal yn y sampl. Er hyn, nid oedd y rhan fwyaf o ddarparwyr o'r farn bod hyfforddiant yn angenrheidiol gan nad oeddynt yn gofalu am unrhyw blant a phobl ifanc anabl ar y pryd.

4.26 Mynegodd rhieni yn astudiaeth y Daycare Trust (2007) bryder ynglŷn â'r effeithiau niweidiol y gallai'r gofal plant anghywir eu cael ar blentyn ag anghenion ychwanegol, ac roeddynt yn pwysleisio bod angen dod o hyd i'r gofal plant mwyaf addas ar gyfer anghenion eu plentyn. Roedd enghreifftiau o'r modd yr ystyrid bod gofal plant yn niweidiol yn cynnwys diffyg cysondeb o ran gweithiwr/wyr cymorth, yn enwedig ar gyfer plant awtistig, o ystyried pwysigrwydd creu perthynas dda â'r plentyn. Mewn rhai achosion, roedd rhieni wedi dewis tynnu eu plentyn allan o leoliad gofal plant gan nad oedd yn addas, a hynny wedi effeithio ar y plentyn a'r rhieni, yn enwedig os oeddynt yn dibynnu ar leoliad gofal plant er mwyn gallu gweithio. Yng ngwerthusiad Cheshire et al. (2011), roedd

29% o'r rhieni wedi defnyddio rhyw fath o wasanaeth gofal plant yn y gorffennol ond heb barhau gan fod y plentyn yn anhapus neu nad oedd yn ei fwynhau (t.40).

4.27 Nododd rhieni hefyd fod angen gofal plant ar frys neu ar sail ad hoc ar adegau, a bod hyn, yn enwedig yn achos plant anabl, yn anodd iawn ei ganfod o ystyried bod angen cysondeb a staff sydd wedi derbyn digon o hyfforddiant (Cheshire 2011).

4.28 Mae'r astudiaethau a adolygwyd yn awgrymu bod y rhieni'n fodlon iawn fel arfer pan oeddynt yn llwyddo i ddod o hyd i ofal plant priodol. Roedd rhieni o'r farn bod y gofal plant cywir yn gallu bod o fudd sylweddol i'w plant, yn enwedig oherwydd ei fod yn cynnig cyfle iddynt dreulio amser gyda phlant eraill (Daycare Trust 2007). Canfu Rutter ac Evans (2012) hefyd fod gofal plant rheolaidd (er yn anffurfiol) yn bwysig fel ffactor amddiffynnol i deuluoedd, gan roi'r amser, y lle a'r gallu i rieni a phlant eraill ymdopi fel teulu.

4.29 Canfu Huskinson et al. (2014, t.142) fod rhieni sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol yn gyffredinol yn hapus â gallu'r staff i ymdopi â chyflwr eu plentyn, ac roedd y rhan fwyaf yn nodi eu bod yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod y staff wedi derbyn digon o hyfforddiant. Roedd y rhieni a oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol yn y gwerthusiad gan Cheshire (2011) yn nodi ei fod o safon dda iawn, yn sefydlog ac yn diwallu anghenion y teulu'n dda. Hefyd, roedd 94% o rieni'n fodlon neu'n fodlon iawn ar eu prif ddarparwr gofal plant (t.52).

*Cost*

4.30 Nododd y rhai a ymatebodd yn astudiaeth Working Families (2012) fod gofal plant yn ddrud, ac roedd rhai yn talu dwy a theirgwaith mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nododd NCMA (2009) mai cost oedd y rhwystr mwyaf sylweddol i rieni a oedd yn dymuno gweithio. Hyd yn oed pan oedd cymorth ariannol ar gael iddynt, roedd yr adnoddau a'r cymorth

ychwanegol a oedd yn ofynnol yn golygu bod gofal plant yn rhy ddrud. Canfu'r Daycare Trust (2007) hefyd fod tua 40% o'r rhai hynny nad oeddynt yn defnyddio gofal plant ar hyn o bryd yn dweud mai'r gost oedd y rheswm, yn enwedig pan oedd angen gweithwyr cymorth ychwanegol.

4.31 Pan oedd cymorth ariannol ar gael, roedd rhai rhieni wedi'i chael yn anodd ymdrin â'r system. Canfu'r Daycare Trust (2007) nad oedd llawer o bobl yn gwybod am y lwfansau sydd ar gael i rieni (er enghraifft Credyd Treth Gwaith, talebau gofal plant a chymorth ariannol arall) ac nad oedd llawer ohonynt yn eu derbyn. Hyd yn oed gyda chymorth ariannol o sianeli prif ffrwd, roedd y rhieni a gyfwelwyd gan NCMA Cymru (2009) wedi ei chael yn anodd talu'r ffioedd uwch yr oedd rhai darparwyr yn eu codi am gymorth ychwanegol.

*Cludiant a threfniadau ymarferol*

4.32 Canfu NCMA Cymru (2009) fod cludiant a threfniadau ymarferol yn rhwystro pobl rhag defnyddio gofal plant am ddau reswm: roedd angen cludiant arbenigol ar blant i fynd i leoliadau gofal plant lleol; ac roedd yr unig leoliad gofal plant addas yn eithaf pell ac roedd angen teithio ymhellach nag arfer. Canfu Cheshire et al. (2011) a'r Daycare Trust (2007) hefyd nad oedd rhai rhieni yn gallu defnyddio gofal plant oherwydd nad oedd cludiant addas ar gael. Fodd bynnag, mae arolwg Huskinson et al. (2014) yn awgrymu bod rhieni plant anabl, yn gyffredinol, yn ei chael yn rhwydd teithio i'w darparwr gofal plant addas agosaf, a 17% yn unig a oedd yn ei chael yn anodd neu'n anodd iawn gwneud hynny (t.141).

*Lleoliadau gofal plant i rieni sy'n gweithio*

4.33 Mae tystiolaeth o nifer o astudiaethau yn dangos bod y diffyg gofal plant ar gyfer plant anabl yn atal rhieni sy'n dymuno gweithio rhag gwneud hynny (NCMA Cymru 2009, Working Families 2012, Daycare Trust 2007). Roedd rhai o'r astudiaethau a adolygwyd yn dangos bod angen cyflogwyr hyblyg ac ystyriol yn ogystal â gofal plant addas er mwyn galluogi rhieni plant anabl i weithio.

4.34 Canfu’r Daycare Trust (2007) fod rhieni plant anabl yn ei chael yn anodd iawn ymrwymo i weithio oherwydd bod llawer ohonynt yn gorfod ymweld ag ysbyty yn aml gyda’u plentyn ac oherwydd bod eu plentyn yn sâl yn aml. Mae angen llawer iawn o hyblygrwydd ar rieni felly, o ran eu gwaith, er mwyn ymdopi a’r digwyddiadau hyn.

> *“What happens when your child is in hospital? My daughter has spent four months twice as ân inpatient. It was planned hospital admission and the lack of flexibility of my boss that eventually made me give up work.”* (Working Families 2012, t.8)

**Crynodeb**

4.35 Mae llawer o’r problemau ynglŷn â gofal plant ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol yn ymwneud â chyflenwad, ac yn benodol, a oes gofal plant ar gael sy’n briodol i anghenion y plentyn. Mae’r dystiolaeth yn awgrymu ei bod yn arbennig o anodd cael hyd i leoedd ar gyfer plant â llawer o anghenion meddygol neu anghenion cymhleth, a bod y graddau y mae gofal addas ar gael ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol yn amrywio o ardal i ardal.

4.36 Er hyn, mae angen cynnal mwy o ymchwil ynglŷn â rhai anghysondebau yn y dystiolaeth, yn enwedig ynglŷn â syniadau pobl ynglŷn ag a oes gofal addas ar gael, a gwir lefel y defnydd o ofal plant ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Mae angen ymchwilio i’r ddau fater ar sail lefel yr anabledd neu’r angen ychwanegol, gan fod y dystiolaeth yn awgrymu bod y ddarpariaeth sydd ar gael a’r defnydd a wneir ohoni yn amrywio’n fawr gan ddibynnu ar anghenion y plentyn e.e. AAA, llawer o anghenion meddygol ac ati. Nid yw’n amlwg ychwaith ai diffyg ymwybyddiaeth o’r ddarpariaeth sydd ar gael sy’n gyfrifol am y ffaith bod rhieni’n teimlo nad yw’r cyflenwad yn ddigonol (gweler 4.35).

4.37 Mae’r dystiolaeth yn awgrymu nad yw rhieni’n ymwybodol o’r wybodaeth a’r cymorth sydd ar gael iddynt pan fyddant yn dymuno dod o hyd i ofal

plant. Nododd llawer o'r rhieni ei bod yn anodd cael hyd i ofal plant addas, ac mae tystiolaeth wedi dangos bod ymwybyddiaeth o wybodaeth a chymorth yn isel, ac nid oes llawer o rieni'n defnyddio gwasanaethau a ariennir gan y llywodraeth (er enghraifft y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd) ac yn hytrach mae'n well ganddynt glywed gan bobl eraill.

4.38 Nodir rhwystrau ymarferol hefyd mewn llawer o achosion, yn bennaf ynglŷn â'r costau uwch ar gyfer gofal plant, cludiant a'r gallu i drefnu gofal plant i gyd-fynd â threfniadau gweithio. Dywedodd rhai rhieni fod yr angen i ymdrin â'r systemau cymorth ariannol yn eu rhwystro rhag manteisio ar yr arian angenrheidiol. Canfuwyd ei bod yn arbennig o anodd trefnu gofal plant ad hoc neu ar frys ar gyfer plant ag anableddau o ystyried y ffaith ei bod yn bwysig i ofalwyr fod yn gyfarwydd ag anghenion ac ymddygiad y plentyn.

4.39 Yn olaf, ac mae hyn yn arbennig o wir am blant y mae arnynt angen cymorth ychwanegol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pryderon y rhieni am ansawdd, hyfforddiant a phrofiad y staff a'r diffyg cyfleusterau digonol yn ffactor allweddol sy'n eu rhwystro rhag manteisio ar ofal plant ffurfiol. Er hyn, mae'r astudiaethau a adolygwyd yn awgrymu bod rhieni yn nodi lefelau uchel o foddhad â'r gofal a ddarperir, pan oeddynt yn gallu dod o hyd i ofal plant priodol.

## 5 Casgliadau ac argymhellion

### Cyflwyniad

5.1 Yn yr adran hon – defnyddir y dystiolaeth a gasglwyd gan yr adolygiad i ymdrin ag amcanion yr ymchwil:

a) Nodi a darparu disgrifiad manwl o'r prif fathau o rieni / gofalwyr sy'n gweithio oriau annodweddiadol.
b) Canfod a nodi manylion y problemau gofal plant a wynebir gan y rhieni a nodwyd yn a).
c) Archwilio a chyflwyno adroddiad ar y rhwystrau (deddfwriaethol neu sefydliadol) sy'n berthnasol i ddarpariaeth gofal plant, a wynebir yn nodweddiadol gan y rhieni / gofalwyr hynny a nodwyd yn a).
ch) Canfod a nodi manylion y problemau gofal plant a wynebir gan y rhieni / gofalwyr hynny y mae arnynt angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant ag anableddau o ran eu defnydd o ddarpariaeth gofal plant.
d) Archwilio a chyflwyno adroddiad ar y rhwystrau (deddfwriaethol neu sefydliadol) sy'n berthnasol i ddarpariaeth gofal plant, a wynebir yn nodweddiadol gan y rhieni / gofalwyr hynny a nodir yn ch).

5.2 Yn gyntaf, bydd cadernid y sail dystiolaeth yn cael ei hasesu yng nghyd-destun amcanion yr Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth. Cyflwynir cyfres o argymhellion yn dilyn hynny o ran gwaith ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud yn y maes hwn.

### Pa mor gadarn yw tystiolaeth yr ymchwil

5.3 Er nad oedd yr adolygiad yn cynnwys llawer o astudiaethau a adolygwyd gan gymheiriaid, dyfarnwyd bod ansawdd y deunydd darllen answyddogol a oedd wedi ei gynnwys yn dda iawn.

5.4 Nid oedd rhyw lawer o dystiolaeth yn cynnwys ymchwil yng Nghymru felly dylid bod yn ofalus wrth ei chymhwyso yng nghyd-destun Cymru.

Mae'n bosibl nad yw'r dystiolaeth yn uniongyrchol berthnasol oherwydd proffil economaidd-gymdeithasol Cymru yn ei chyfanrwydd ac yn ei rhanbarthau, yn ogystal â'r pwerau datganoledig sy'n ymwneud â darpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar.

**Oriau annodweddiadol**

*a) Nodi a darparu disgrifiad manwl o'r prif fathau o rieni / gofalwyr sy'n gweithio oriau annodweddiadol.*

5.5 Mae patrymau gweithio annodweddiadol yn fwy cysylltiedig â swyddi â chyflog isel; roedd patrymau gweithio annodweddiadol (gan gynnwys contractau dim oriau a gwaith sifft) yn benodol gysylltiedig â'r sector lletygarwch, y sector gweithgynhyrchu a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae pobl mewn swyddi â chyflog gwell yn aml yn gweithio oriau annodweddiadol ond maent mewn sefyllfa well i ychwanegu at eu pecyn gofal plant trwy gyflogi nani. Y patrymau gweithio annodweddiadol mwyaf cyffredin oedd fin nos ac ar ddydd Sadwrn. Er hyn, mae'r sail dystiolaeth ynglŷn â'r nodweddion hyn yn brin.

*b) Canfod a nodi manylion y problemau gofal plant a wynebir gan y rhieni a nodwyd yn a).*

5.6 Roedd y rhieni a nodwyd yn a) yn wynebu problemau a phrofiadau cyffredin ond gallai'r graddau y maent yn achosi anawsterau fod yn gysylltiedig â statws cymdeithasol, patrymau gwaith a'u rhwydweithiau teuluol.

5.7 Roedd y problemau cyffredin a nodwyd gan rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol yn cynnwys: dim digon o ddarpariaeth gofal plant ffurfiol ar gael yn ystod oriau annodweddiadol – nid yw'r rhan fwyaf o ddarpariaeth ffurfiol yn cynnig oriau estynedig; cost defnyddio'r ddarpariaeth gofal plant ffurfiol sydd ar gael, problem a waethygir gan y cysylltiad cryf rhwng swyddi sy'n gofyn am batrymau gwaith annodweddiadol a chyflog isel; syniadau ynglŷn ag ansawdd ac

addasrwydd y ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael yn ystod oriau annodweddiadol, a’r ffaith bod y ddarpariaeth yn anhyblyg a’i bod yn ofynnol trefnu lleoedd rheolaidd ymlaen llaw.

5.8 Mae problemau’n tueddu i fod yn waeth i unig rieni gan nad oeddynt yn gallu dibynnu cymaint ar eu cymar i ddarparu gofal plant. Roedd yn arbennig o anodd cael gafael ar ddarpariaeth dros nos ac yn gynnar yn y bore, a phan oedd darpariaeth o’r fath yn cael ei defnyddio, ystyrid bod gwarchodwyr plant yn fwy cyfleus na lleoliadau grŵp. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynglŷn ag ansawdd a dibynadwyedd.

*c) Archwilio a chyflwyno adroddiad ar y rhwystrau; (deddfwriaethol neu sefydliadol) sy’n berthnasol i ddarpariaeth gofal plant, a wynebir yn nodweddiadol gan y rhieni / gofalwyr hynny a nodwyd yn a).*

5.9 Cymru sydd â’r ddarpariaeth gofal plant leiaf digonol ar gyfer pobl sy’n gweithio oriau annodweddiadol o’i chymharu â’r Alban a Lloegr.

5.10 Ystyrid nad oedd system cymorth y credyd treth gwaith ar gyfer gofal plant yn ymateb i rieni ag oriau ysbeidiol neu amhosibl eu rhagweld.

5.11 Roedd darparwyr gofal plant ffurfiol yn cael trafferthion darparu gofal plant sy’n ariannol ymarferol ar adegau annodweddiadol oherwydd bod y galw yn afreolaidd, a’i bod yn anodd ac yn ddrud staffio darpariaeth o’r fath.

5.12 Roedd enghreifftiau o arfer da i ymdrin â’r rhwystrau hyn yn cynnwys sefydlu rhwydweithiau brocera gwarchodwyr plant, penodi cydgysylltwyr gofal plant a darparu cymorth ariannol gan gyflogwyr mawr tuag at ddarpariaeth ar adegau annodweddiadol.

**Anghenion ychwanegol**

*ch) Canfod a nodi manylion y problemau gofal plant a wynebir gan y rhieni / gofalwyr hynny y mae arnynt angen cymorth ychwanegol ar*

*gyfer plant ag anableddau o ran eu defnydd o ddarpariaeth gofal plant.*

5.13 Mae rhieni'n nodi nad oes digon o ddarpariaeth gofal plant ar gael ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol; ystyrir bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn annigonol o ran diwallu anghenion unigol. Ystyrir bod y ddarpariaeth ar gyfer plant hŷn ag anghenion ychwanegol yn hynod o annigonol.

5.14 Mae ffydd rhieni mewn darpariaeth gofal plant yn broblem allweddol a lleisiwyd pryderon ynglŷn â phrinder staff sydd wedi eu hyfforddi'n ddigonol a phriodoldeb y lleoliadau.

*d) Archwilio a chyflwyno adroddiad ar y rhwystrau; (deddfwriaethol neu sefydliadol) sy'n berthnasol i ddarpariaeth gofal plant, a wynebir yn nodweddiadol gan y rhieni / gofalwyr hynny a nodir yn ch).*

5.15 Nodwyd bod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ddarpariaeth gofal plant yn rhwystr penodol: roedd yr ymchwil yn nodi nad oedd pobl yn ymwybodol o ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth. Er hyn, nid yw'n amlwg ai diffyg ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth sydd i'w gyfrif mewn gwirionedd am y ffaith bod rhieni'n teimlo nad oes digon o gyflenwad.

5.16 Nodwyd bod gofal plant i rieni plant ag anableddau yn ddrutach na'r cyfartaledd cenedlaethol, a nododd rhieni ei bod yn anodd sicrhau cymorth ariannol.

5.17 Roedd ffactorau ymarferol hefyd yn rhwystro rhieni rhag defnyddio gofal plant hefyd, er enghraifft cludiant arbenigol.

**Argymhellion**

5.18 Mae'r Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth hwn wedi nodi bod rhai bylchau yn y sail dystiolaeth ar brofiadau'r ddau grŵp yng nghyd-destun Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y themâu allweddol a'r rhwystrau a

nodwyd gan yr adroddiad hwn a’r posibilrwydd o archwilio mwy ar y rhain trwy gynnal mwy o waith ymchwil. Byddai mwy o ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid neu ymchwil gan asiantaethau annibynnol yn cynorthwyo rhywfaint i ategu’r sail dystiolaeth bresennol.

5.19 Bydd modd cyffredinoli canfyddiadau o fewn y boblogaeth gyffredinol trwy ddefnyddio methodoleg feintiol gyda samplau â’r pŵer priodol, yn ogystal ag is-ddadansoddiad o gyfresi data presennol megis yr Arolwg o’r Llafurlu. Bydd ymchwil meintiol sydd wedi ei gynllunio’n dda yn gallu archwilio’r problemau a’r rhwystrau’n fanwl, a bydd yn darparu gwybodaeth gyd-destunol gyfoethog i’w defnyddio wrth ddatblygu atebion polisi.

*Ymchwil ychwanegol – oriau annodweddiadol*

5.20 Gallai rhaglen ymchwil ystyried y problemau canlynol a llywio polisïau ac arfer yn y dyfodol gyda’r nod o ymdrin â bylchau:

- Marchnad lafur Cymru – cwmpas a phatrymau gwaith annodweddiadol ledled Cymru (yn ôl rhanbarth; ardaloedd trefol/gwledig) ac ar draws sectorau diwydiannol;
- Y galw am wahanol fathau o wasanaethau gofal plant, a’r cyflenwad, ledled Cymru;
- Problemau a phrofiadau rheini a darparwyr;
- Mwy o ymchwil i arferion gorau er mwyn ymdrin â’r materion hyn yng Nghymru a’r DU.

*Ymchwil ychwanegol – anghenion ychwanegol*

5.21 Mae’r dystiolaeth wedi datgelu bod nifer o feysydd y gellid gwneud mwy o ymchwil ynglŷn â nhw:

- Data sy’n benodol i Gymru ynglŷn â galw a chyflenwad;
- Problemau o ran y ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael a pha un a oes diffyg ymwybyddiaeth o’r cyflenwad (a pham a sut y gellid

ymdrin â hyn) neu yn syml nad oes digon o gyflenwad i fodloni'r galw (ac ystyried sut y gellid cynorthwyo darparwyr er mwyn bodloni'r galw hwn). Dylid ystyried hyn ar sail lefel yr anghenion ychwanegol, oherwydd bod y dystiolaeth yn awgrymu amrywiadau sylweddol;

- Syniadau a safbwyntiau rheini o ran eu gallu i ymddiried mewn darparwyr, lefel hyfforddiant a phrofiad y staff a sut y gellid cynyddu ffydd er mwyn annog mwy o rieni i fanteisio ar y lleoedd sydd ar gael;
- Y dull gorau o oresgyn rhwystrau megis cludiant, sut i sicrhau cyllid neu ymwybyddiaeth o wybodaeth a chymorth;
- Mwy o ymchwil i arferion gorau sy'n ymdrin â'r problemau o ran sicrhau darpariaeth gofal plant i blant ag anghenion ychwanegol yng Nghymru ac yn y DU.

## 6 Cyfeiriadau


Booth C., Kostadintcheva, K., Knox, K., a Bram, B. (2013) *Parents' views and experiences of childcare.* Llundain: Yr Adran Addysg. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/212589/DFE-RR266.pdf [Cyrchwyd: 24 Mawrth 2014]

Bryson, C., Kazimirski, A., a Southwood, H. (2006) *Childcare and Early Years Provision: A study of parents' use, views and experience*. Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130401151715/https://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/RR723.pdf [Cyrchwyd: 24 Mawrth 2014]

Butler, G., Hodgkinson, J., Holmes, E., a Marshall, S. (2004) *Evidence Based Approaches to Reducing Gang Violence: A Rapid Evidence Assessment for Aston and Handsworth Operational Group.* Y Swyddfa Gartref. Llundain. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.civilservice.gov.uk/wp-content/uploads/2011/09/rea_gang_violence_tcm6-5863.pdf [Cyrchwyd: 24 Mawrth 2014]

Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2009) *Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru 2009. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-childcare-early-years-survey/?lang=cy [Cyrchwyd: 25 Mawrth 2014]

Cheshire, H., Brown, V., Wollny, I., Ireland, E., Scott, S., a Jessiman, P. (2011*) Impact evaluation of the Disabled Children's Access to Childcare Pilot (DCATCH).* Llundain: Yr Adran Addysg. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/183336/DFE-RR168.pdf [Cyrchwyd: 24 Mawrth 2014]

Daycare Trust (2007) *Listening to parents of children with disabilities and special educational needs.* London Development Agency. Llundain. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.daycaretrust.org.uk/data/files/Research/lda_listening_to_parents_report.pdf [Cyrchwyd: 25 Chwefror 2014]

Dickens, S., Taylor, J., a La Valle, I. (2005) *Local childcare markets: A longitudinal study.* Llundain: Yr Adran Addysg. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130401151715/https://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/SSU-2005-FR-016.pdf [Cyrchwyd: 25 Mawrth 2014]

Gwasanaeth Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (2014) *How to do a REA* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.civilservice.gov.uk/networks/gsr/resources-and-guidance/rapid-evidence-assessment/how-to-do-a-rea [Cyrchwyd: 25 Chwefror 2014]

Harries, T., La Valle, I., a Dickens, S. (2004) *Childcare: How local markets respond to national initiatives.* Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130401151715/https://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/RR526MIG244.pdf [Cyrchwyd: 25 Mawrth 2014]

Huskinson, T., Kostadintcheva, K., Greevy, H., Salmon, C., Dobie, S., Medien, K., Gilby, N., Littlewood, M., a D'Souza, J. (2014) *Childcare and early years survey of parents 2012-13.* Llundain: Yr Adran Addysg. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/275992/SFR06-2014_Childcare_and_Early_Years_Survey_of_Parents_2012-13_final.pdf [Cyrchwyd: 25 Mawrth 2014]

Le Bihan, B a Martin, C. (2004) *Atypical working hours: Consequences for childcare arrangements*. Social Policy and Administration, 38(6), 565 - 590.

Llywodraeth Cymru (2014) *The childcare needs of parents who work atypical hours or have additional needs: specification for a research project.* Caerdydd. Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013a) *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.* Llywodraeth Cymru. Caerdydd. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://cymru.gov.uk/docs/dcells/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf [Cyrchwyd: 25 Chwefror 2014]

Llywodraeth Cymru (2013b) *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.* Llywodraeth Cymru. Caerdydd. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://cymru.gov.uk/docs/dsjlg/publications/socialjustice/130703takeforpovactplancy.pdf [Cyrchwyd: 25 Chwefror 2014]

Llywodraeth Cymru (2012) *Statistical Bulletin: Average Hours Worked in Wales, 2011.* Llywodraeth Cymru: Caerdydd. [Ar-lein]. Ar gael yn athttp://wales.gov.uk/docs/statistics/2012/121206sb1172012en.pdf : [Cyrchwyd: 19 Mawrth 2014]

Moss, J. (2009) *Juggling acts: how parents working non-standard hours arrange care for their pre-school children* Social Policy Journal of New Zealand; Mehefin 2009,

NCMA Cymru. (2009) *Gofal Plant i Blant a Phobl Ifanc Anabl.* Caerdydd; NCMA Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://cymru.gov.uk/statistics-and-research/childcare-disabled-children-young-people/?lang=cy [Cyrchwyd: 25 Mawrth 2014]

Rutter., J ac Evans B. (2012a) *Improving our understanding of informal childcare in the UK.* Llundain: Daycare Trust. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.daycaretrust.org.uk/data/files/Research/Interim_report_informal_childcare_final_version.pdf [Cyrchwyd: 25 Mawrth 2014]

Rutter, J., ac Evans, B. (2012b) *Childcare for Parents with Atypical Work Patterns: The need for flexibility*. Llundain: Daycare Trust. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.daycaretrust.org.uk/data/files/Research/Atypical_Work_Patterns__the_need_for_flexibility_interactive.pdf [Cyrchwyd: 25 Mawrth 2014]

Rutter, J., a Stocker, K. (2014) *Childcare Cost Survey 2014.* Llundain: Family and Childcare Trust. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.familyandchildcaretrust.org/childcare-costs-surveys [Cyrchwyd: 25 Mawrth 2014]

Singler, R. (2011) *Open all hours? Flexible childcare in the 24/7 era.* Daycare Trust. Llundain. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.daycaretrust.org.uk/data/files/atypical_hours_report_final_march_11.pdf [Cyrchwyd: 25 Chwefror 2014]

Swyddfa'r Prif Ymchwilydd Cymdeithasol (2003) *Quality in Qualitative Evaluation: A framework for assessing research evidence.* Swyddfa'r Cabinet. Llundain. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.civilservice.gov.uk/wp-content/uploads/2011/09/a_quality_framework_tcm6-7314.pdf [Cyrchwyd: 26 Chwefror 2014]

Working Families (2012) *Finding Flexibility: parents of disabled children and paid work.* Working Families. Llundain. [Ar-lein] Ar gael yn: http://www.workingfamilies.org.uk/admin/uploads/FindingFlexibility-parentsofdisabledchildrenandpaidwork.pdf [Cyrchwyd: 25 Chwefror]

# Atodiad A: Methodoleg

## Tabl 6 Termau chwilio

| Rhieni sy’n gweithio oriau annodweddiadol | Gofal plant ar gyfer plant ag anableddau |
|---|---|
| Gofal plant ac<br>Oriau gwaith annodweddiadol<br>Cytgordio gwaith a theulu<br>Patrwm* gwaith*<br>Gwaith* mam*<br>Gwaith* tad*<br>Gwaith* rhiant*<br>Gwaith* gofalwr*<br>Canfyddiad* rhiant*<br>Canfyddiad* gofalwr*<br>Gwaith sifft*<br>Gweithio ar y penwythnosau*<br>Goramser<br>Contract dim oriau*<br>Gwaith dros nos/ fin nos | Gofal Plant a<br>Plentyn* anabl*<br>Plentyn* ag AAA<br>Plentyn* ag Anghenion Addysgol Arbennig<br>Plentyn* ag Anghenion Dysgu Ychwanegol |


## Tabl 7 Meini prawf ar gyfer cynnwys neu hepgor

| Meini prawf cynnwys | Meini prawf hepgor |
|---|---|
| ***Cwmpas daearyddol***<br>Deunydd darllen anfasnachol sy’n ymwneud â Chymru neu â Chymru a Lloegr. Deunydd darllen a adolygwyd gan gymheiriaid o wledydd â systemau gwladwriaeth les cyffelyb. | Deunydd darllen sy’n ymwneud â gwledydd tu allan i’r paramedrau hyn. |
| **Dyddiad**<br>Bydd yr Asesiad Cyflym o’r Dystiolaeth yn canolbwyntio ar ddeunydd darllen a gyhoeddwyd o 2004 ymlaen i ddechrau. | Deunydd darllen a gyhoeddwyd cyn 2004. |
| **Iaith**<br>Deunydd darllen a gyhoeddwyd yn Saesneg neu Gymraeg. | Deunydd darllen mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg neu Gymraeg. |
| **Poblogaeth**<br>Deunydd darllen sy’n ymwneud ag a) profiadau rhieni a gofalwyr cyfreithiol sy’n gweithio oriau annodweddiadol b) gofal plant ar gyfer plant ag anableddau | Deunydd darllen nad yw’n ymwneud ag a) profiadau rhieni a gofalwyr cyfreithiol sy’n gweithio oriau annodweddiadol b) gofal plant ar gyfer plant ag anableddau |
| **Math o ddeunydd darllen**<br>Deunydd darllen sy’n cynnwys amrywiaeth o ddulliau ymchwil ond rhaid cynnwys tystiolaeth empirig: papurau a adolygwyd gan gymheiriaid, adroddiadau ymchwil a phapurau cynhadledd, adroddiadau ac erthyglau proffesiynol; deunydd darllen anfasnachol. Dylid rhoi blaenioraeth i ddogfennau a adolygwyd gan gymheiriaid o fewn yr Asesiad Cyflym o’r Dystiolaeth. Os yw’r ddogfen yn rhan o gyfres, cynnwys y mwyaf diweddar o’r gyfres. | Adolygiadau llyfrau, ac adolygiadau barn a llenyddiaeth sy’n trin a thrafod. Astudiaethau blaenorol o gyfres a ailadroddwyd. |

**Tabl 8 Ffynonellau tystiolaeth**

| Adrannau a chyrff y llywodraeth | Sefydliadau/ elusennau | Prifysgolion | Cronfa ddata |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru<br>Yr Adran Addysg Yr<br>Adran Gwaith a<br>Phensiynau<br>Estyn/Ofsted Y<br>Comisiynydd Plant<br>Gwasanaethau<br>Gwybodaeth i<br>Deuluoedd<br>Comisiwn<br>Cydraddoldeb a<br>Hawliau Dynol<br>Arolygiaeth Gofal a<br>Gwasanaethau<br>Cymdeithasol<br>Cymru | Working Families Family<br>& Childcare Trust[9]<br>Joseph Roundtree<br>Foundation Resolution<br>Foundation 4 Children<br>Council for Disabled<br>Children Mencap<br>Gweithredu Dros Blant<br>PACEY Contact a<br>Family National Day<br>Nurseries Association<br>Cymdeithas Darparwyr<br>Cyn-ysgol Cymru | Childhood<br>Wellbeing Research<br>Centre Norah Fry<br>Research Centre | ASSIA (ProQuest)<br>Web of Knowledge<br>(Web of Science) |

**Ffigur 1 Proses Chwilio**




[9] Daycare Trust gynt

## Atodiad B: Astudiaethau a gynhwyswyd yn yr Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth

Allwedd:

| Oriau gwaith annodweddiadol yn unig | Plant ag anghenion ychwanegol yn unig | Plant ag anghenion ychwanegol ynghyd ag oriau gwaith annodweddiadol |
|---|---|---|

**Tabl 9 Rhestr lawn yr astudiaethau a gynhwyswyd yn yr Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth**

| Rhif y Ddogfen | Pennawd | Comisiynydd yr Ymchwil | Categori ansawdd | Sgôr ansawdd (Hyd at 18) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Rutter, J., ac Evans, B. (2012a) Improving our understanding of informal childcare in the UK. Llundain: Daycare Trust | Elusen/sefydliad | Uchel | 16 |
| 2 | Cheshire, H.,Brown, V., Wollny, I., Ireland, E., Scott, S a Jessiman, P. (2011) Impact evaluation of the Disabled Children's Access to Childcare Pilot (DCATCH). Llundain: Yr Adran Addysg | Llywodraeth | Uchel | 14 |
| 3 | Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (2009) Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru 2009. Caerdydd: Llywodraeth Cymru | Llywodraeth | Uchel | 14 |
| 4 | Singler, R. (2011) Open all hours: flexible childcare in the 24/7 era. Llundain: Daycare Trust | Elusen/sefydliad | Uchel | 14 |
| 5 | Dickens, S., Taylor, J., a La Valle, I. (2005) Local childcare markets: A longitudinal study. Llundain: Yr Adran Addysg | Llywodraeth | Uchel | 14 |
| 6 | Moss, J. (2009) Juggling acts: how parents working non-standard hours arrange care for their pre-school children Social Policy Journal of New Zealand; Meh 2009, Rhifyn 35, t68 | Academaidd | Uchel | 14 |

| Rhif y Ddogfen | Pennawd | Comisiynydd yr Ymchwil | Categori ansawdd | Sgor ansawdd (uchafswm 18) |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Booth, C., Kostadintcheva, K., Knox, K., a Bram, B. (2013) Parents' views and experiences of childcare. Llundain: Yr Adran Addysg | Llywodraeth | Canolig | 14 |
| 8 | Huskinson, T., Kostadintcheva, K., Greevy, H .Salmon, C., Dobie, S. Medien, K., Gilby, N., Littlewood, M., a D'Souza, J. (2014) Childcare and early years survey of parents 2012-13. Llundain: Yr Adran Addysg | Llywodraeth | Canolig | 13 |
| 9 | Bryson, C., Kazimirski, A., a Southwood, H. (2006) Childcare and Early Years Provision: A study of parents' use, views and experience. Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau | Llywodraeth | Canolig | 12 |
| 10 | Le Bihan, B., a Martin, C. (2004, Rhagfyr). Atypical working hours: Consequences for childcare arrangements. Social Policy and Administration, 38(6), 565 - 590 | Academaidd | Canolig | 8 |
| 11 | NCMA Cymru (2009) Gofal Plant ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Anabl. Caerdydd; NCMA Cymru | Elusen/sefydliad | Canolig | 8 |
| 12 | Rutter, J., a Stocker, K. (2014) Childcare Cost Survey 2014. Llundain: Family and Childcare Trust | Elusen/sefydliad | Canolig | 8 |
| 13 | Daycare Trust (2007) Listening to parents of children with disabilities and special educational needs. Llundain: London Development Agency | Llywodraeth | Canolig | 8 |
| 14 | Rutter, J., ac Evans, B. (2012b) Childcare for Parents with Atypical Work Patterns: The need for flexibility. Llundain: Daycare Trust | Elusen/sefydliad | Canolig | 7 |
| 15 | Working Families (2012) Finding Flexibility: parents of disabled children and paid work. Llundain: Working Families | Elusen/sefydliad | Canolig | 7 |

**Tabl 10 Dadansoddiad o'r astudiaethau yn ôl pwyslais yr ymchwil a'r comisiynydd**

| **Dadansoddiad o'r astudiaethau** | **Pwyslais yr ymchwil** | | | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Comisiynydd** | **Annodweddiadol** | **Anghenion ychwanegol** | **Y ddau** | |
| **Erthygl academaidd/ adolygwyd gan gymheiriaid** | 2 | 0 | 0 | 2 |
| **Elusen/ sefydliad** | 2 | 3 | 2 | 6 |
| **Adran y Llywodraeth** | 4 | 1 | 1 | 7 |
| **Cyfanswm** | **8** | **4** | **3** | **15** |

**Tabl 11 Manylion yr Astudiaethau**

| Rhif y Ddogfen. | Pennawd | Gwlad y tarddodd ynddi | Pwyslais | Cynllun yr Astudiaeth | Dull gwaith | Prif ganfyddiadau (oriau gwaith annodweddiadol) | Prif ganfyddiadau (anghenion ychwanegol) | Enghreifftiau o atebion/arfer gorau? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rutter, J., ac Evans, B. (2012a) Improving our understanding of informal childcare in the UK. Llundain: Daycare Trust | Y DU | Y defnydd o ofal plant anffurfiol a'i effeithiau. | Dulliau cymysg | 10 grŵp ffocws o rieni (n=50) Cyfweliadau â rhieni (n=50) Adolygiad deunyddiau darllen ac is-ddadansoddiad o gyfresi data sy'n bodoli eisoes. | Cysylltiad cryf rhwng gwaith oriau annodweddiadol a dosbarth cymdeithasol gyda'r tebygolrwydd o weithio oriau annodweddiadol yn lleihau wrth fynd i lawr y graddau cymdeithasol. Gwaith sifft yw'r math mwyaf cyffredin o waith annodweddiadol. Mae teuluoedd ag incwm llai sy'n gweithio oriau annodweddiadol yn tueddu i ddefnyddio gofal plant anffurfiol yn unig. | Mae rhieni plant anabl o oedran ysgol yn ei chael yn anodd iawn yn aml cael hyd i ofal plant ffurfiol, yn enwedig os oes gan y plentyn anabledd difrifol. | Nac oes |
| 2 | Cheshire, H.,Brown, V., Wollny, I., Ireland, E., Scott, S a Jessiman, P. (2011) Impact evaluation of the Disabled Children's Access to Childcare Pilot (DCATCH). Llundain: Yr Adran Addysg | Y DU | Y dulliau a nodwyd ac a brofwyd o wella mynediad at ofal plant ar gyfer plant a phobl ifanc anabl. | Astudiaeth feintiol | Arolwg ffôn CATI (n=1270) mewn ardaloedd DCATCH ac ardaloedd ar wahân i DCATCH wedi eu cydweddu. Cymerwyd y sampl o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion ac o ddata Credyd Treth Plant. | | Canfuwyd bod mwy o ddefnydd o ofal plant ffurfiol nag o ofal anffurfiol. Roedd y canfyddiad o ba mor hawdd oedd cael gofal plant wedi gwella o ganlyniad i weithgareddau DCATCH yn yr ardaloedd peilot. Dywedodd rhieni eu bod wedi cael trafferth cael gofal plant addas yn lleol oherwydd diffyg: staff cymwys a chyfleusterau addas; lleoedd; gwybodaeth; gofal plant o ansawdd da; darpariaeth ar yr amser cywir; a chludiant; Roedd cost hefyd yn rhwystr. | Oes |

| Rhif y Ddogfen. | Pennawd | Gwlad y tarddodd ynddi | Pwyslais | Cynllun yr Astudiaeth | Dull gwaith | Prif ganfyddiadau (oriau gwaith annodweddiadol) | Prif ganfyddiadau (anghenion ychwanegol) | Enghreifftiau o atebion/arfer gorau? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (2009) Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru 2009. Caerdydd: Llywodraeth Cymru | Y DU Cymru | Defnydd rhieni o ofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar, a'u barn a phrofiadau o ran gofal plant. | Astudiaeth feintiol | Cyfweliadau â rhieni plant dan 15 oed (n=600) | Roedd y mwyafrif o'r mamau a holwyd yn gweithio oriau annodweddiadol, yn fwyaf cyffredin gyda'r nos (ar ôl 6pm) ac ar fore Sadwrn. Roedd problemau o ran canfod gofal plant yn gysylltiedig â phobl a oedd yn gweithio gyda'r nos neu'n gynnar yn y bore yn hytrach na rhai a oedd yn gweithio ar y penwythnos. | | Nac oes |
| 4 | Singler, R. (2011) Open all hours: flexible childcare in the 24/7 era. Llundain: Daycare Trust | Y DU | Deall y galw am ofal plant yn ystod oriau annodweddiadol a'r rhwystrau rhag cael gafael arno. | Dulliau cymysg | Arolwg o rieni (n=400) Astudiaethau achos rhieni (n=10) Dadansoddiad data eilaidd o'r Arolwg o'r Llafurlu1 5) Cyfweliadau â rhieni (n=15) Cyfweliadau â darparwyr (n=10) Dadansoddiad o Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant | Mae bron i un o bob pump yn gweithio sifftiau, ag oriau gwaith y mwyafrif yn amrywio o wythnos i wythnos. Cysylltwyd trafferthion wrth ganfod gofal â'r rhai a oedd yn gweithio cyn 8am ac ar ôl 6pm yn enwedig. Roedd yn well ganddynt leoliadau grŵp na gwarchodwyr plant a chlybiau brecwast/ar ôl ysgol. Gofal anffurfiol yn llai poblogaidd ac o'i ddefnyddio tueddwyd i'w ddarparu gan berthnasau. Crybwyllwyd galw ad hoc neu afreolaidd a chost fel ffactorau a oedd yn ei gwneud yn anodd sicrhau gofal ffurfiol. | | Oes |

| Rhif y Ddogfen. | Pennawd | Gwlad y tarddodd ynddi | Pwyslais | Cynllun yr Astudiaeth | Dull gwaith | Prif ganfyddiadau (oriau gwaith annodweddiadol) | Prif ganfyddiadau (anghenion ychwanegol) | Enghreifftiau o atebion/arfer gorau? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Dickens, S., Taylor, J., a La Valle, I. (2005) Local childcare markets: A longitudinal study. Llundain: Yr Adran Addysg | DU | Asesu effaith ymyriad polisi ar bedair marchnad gofal plant flwyddyn ar ôl ei weithredu. | Astudiaeth ansoddol hydredol | Dilyniant ymhen blwyddyn i bedair astudiaeth achos o ardaloedd cyferbyniol yn cynnwys cyfweliadau â darparwyr gofal plant, awdurdodau lleol ac asiantaethau swyddi | Adroddodd strategwyr ynghylch anfodlonrwydd llawer o ofalwyr plant i gynnig oriau annodweddiadol; Gallai helpu'n rhannol pe rhoddid gwell cyngor i ddarparwyr ynglŷn â'r cydbwysedd y mae angen iddynt ei gyflawni rhwng nifer y lleoedd sefydlog a lefel y ddarpariaeth hyblyg.<br>Eto, er ei bod yn debyg mai gwarchodwyr plant fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu gofal oriau annodweddiadol, roedd awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd eu darbwyllo i wneud hynny. | Crybwyllodd strategwyr nifer o ddiffygion yn eu hardaloedd o ran gofal plant a'r drafferth i ddarbwyllo darparwyr i gynnig lleoedd i blant ag AAA oherwydd dwyster y math hwn o ofal a bylchau o ran cymwysterau a phrofiad staff. | Nac oes |
| 6 | Moss, J. (2009) Juggling acts: how parents working non-standard hours arrange care for their pre-school children Social Policy Journal of New Zealand; Meh 2009, Rhifyn 35, t68 | Seland Newydd | Dod i ddeall sut mae rhai rhieni yn jyglo cymhlethdod eu hymrwymiadau i'w teuluoedd a'u horiau gwaith anarferol. | Ansoddol – astudiaethau achos | Dull astudiaeth achos archwiliadol yn cynnwys cyfweliadau â rhieni (n=22), neiniau a theidiau (n=3) a chyflogwyr (n=7) | Sifftiau dros nos, penwythnos ac yn gynnar yn y bore oedd y rhai anoddaf o ran gofal plant. Golyga gwaith ar alwad a thymhorol bod gan rieni lawer llai o allu i gynllunio ymlaen llaw a threfnu gofal plant. Roedd dibyniaeth ar ofal anffurfiol a gwahaniaeth rhwng y ddinas a chefn gwlad o ran defnyddio gofal ffurfiol. | | Nac oes |

| Rhif y Ddogfen. | Pennawd | Gwlad y tarddodd ynddi | Pwyslais | Cynllun yr Astudiaeth | Dull gwaith | Prif ganfyddiadau (oriau gwaith annodweddiadol) | Prif ganfyddiadau (anghenion ychwanegol) | Enghreifftiau o atebion/arfer gorau? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Booth,C., Kostadintcheva, K., Knox, K., a Bram, B. (2013) Parents' views and experiences of childcare. Llundain: Yr Adran Addysg | Y DU | Deall y galw am ofal plant penodol | Arolwg ffôn | Arolwg o rieni plant o dan 15 oed (n=1000) | Unig rieni sy'n gweithio lawer yn fwy tebygol o ddefnyddio gofal plant rhwng 7am a 9am, rhwng 3pm a 7pm ac yn ystod gwyliau ysgol.<br>Defnyddid gofal plant anffurfiol fin nos, ar fyr rybudd, ac yn ystod gwyliau'r ysgol.<br>Roedd trafferthion gyda threfniadau gofal plant wedi rhwystro rhai rhieni rhag gwneud gwaith am dâl. | | Nac oes |
| 8 | Huskinson, T., Kostadintcheva, K., Greevy, H .Salmon, C., Dobie, S.Medien, K., Gilby, N., Littlewood, M., a D'Souza, J. (2014) Childcare and early years survey of parents 2012-13. Llundain: Yr Adran Addysg | Y DU | Defnydd gofal plant a darpariaeth y blynyddoedd cynnar; sylwadau a phrofiadau | Meintiol | Cyfweliadau wyneb yn wyneb â rhieni plant dan 15 oed yn Lloegr (n=6393) | Roedd dros hanner yn gweithio rhai oriau annodweddiadol o leiaf dair gwaith yr wythnos neu ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul; roedd traean o unig rieni yn gweithio'r patrymau hyn.<br>Y patrymau gwaith annodweddiadol mwyaf cyffredin oedd gweithio ar ôl 6pm a chyn 8am o leiaf dri diwrnod yr wythnos. | Roedd cyfran fwy o blant heb AAA nag o rai ag AAA yn mynychu darparwyr ffurfiol yn ystod gwyliau'r ysgol (22%; 18%). Nid oedd gwahaniaeth rhwng plant ag AAA a phlant eraill o ran derbyn gofal plant ffurfiol, nac o ran defnyddio darparwyr ffurfiol neu anffurfiol. | Nac oes |

| Rhif y Ddogfen. | Pennawd | Gwlad y tarddodd ynddi | Pwyslais | Cynllun yr Astudiaeth | Dull gwaith | Prif ganfyddiadau (oriau gwaith annodweddiadol) | Prif ganfyddiadau (anghenion ychwanegol) | Enghreifftiau o atebion/arfer gorau? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Bryson, C., Kazimirski, A., a Southwood, H. (2006) Childcare and Early Years Provision: A study of parents' use, views and experience. Llundain: Yr Adran Addysg a Sgiliau | Y DU - Lloegr | Defnydd, barn a phrofiadau rhieni ynglŷn â gofal plant a darpariaeth y blynyddoedd cynnar | Meintiol - arolygon | Cyfweliadau wyneb yn wyneb lled-strwythuredig â rhieni (n=8000) | Roedd teuluoedd â rhieni'n gweithio ar ôl 6pm yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio gofal plant ffurfiol na theuluoedd eraill sydd mewn gwaith. Gwaith ar y penwythnos ac yn gynnar yn y bore oedd yn achosi'r problemau mwyaf yn enwedig ymhlith unig rieni. Ychydig iawn o gydberthynas rhwng incwm a thrafferthion cael gafael ar ofal plant. | | Nac oes |
| 10 | Le Bihan, B., a Martin, C. (2004, Rhagfyr). Atypical working hours: Consequences for childcare arrangements. Social Policy and Administration, 38(6), 565 - 590 | Y Ffindir, Ffrainc a Phortiwgal | Trefniadau gofal y cyplau lle mae'r ddau ohonynt yn gweithio a theuluoedd unig riant sydd ag oriau gwaith annodweddiadol/ anodd eu rhagweld. | Ansoddol | Cyfweliadau ansoddol (n=12) â rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol. | Pan mae oriau gwaith yn rheolaidd ac yn agored i drafodaeth, gall oriau annodweddiadol fod yn fodd i gytgordio bywyd proffesiynol a theuluol. Ar y llaw arall, pan nad oes modd rhagweld oriau gwaith ac nad ydynt yn agored i drafodaeth, mae oriau annodweddiadol yn gallu gwneud dau hanner bywyd beunyddiol yn anghymharus. | | Nac oes |

| Rhif y Ddogfen. | Pennawd | Gwlad y tarddodd ynddi | Pwyslais | Cynllun yr Astudiaeth | Dull gwaith | Prif ganfyddiadau (oriau gwaith annodweddiadol) | Prif ganfyddiadau (anghenion ychwanegol) | Enghreifftiau o atebion/arfer gorau? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | NCMA Cymru (2009) Gofal Plant ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Anabl. Caerdydd; NCMA Cymru | Y DU - Cymru | Profiadau rhieni plant anabl o ran cael gafael ar ofal plant | Dulliau cymysg | Cyfweliadau â darparwyr gofal plant (n=97) Is-ddadansoddiad o'r arolwg digonolrwydd gofal plant (n=10,000) Dau grŵp ffocws â rhieni (n=26) Arolwg ar y ffôn gyda rhieni (n=71) | | Nid oes gofal plant hyblyg ac addas ar gael; dwyseir hyn gan y ffaith nad oes darpariaeth o gwbl yng nghefn gwlad. Mae llawer o deuluoedd yn methu â fforddio gofal plant - sy'n aml yn ddrutach ar gyfer plant anabl - ac felly'n methu â gweithio. Mae'r broblem yn aml yn dwysáu wrth i blant dyfu gan fod llai o wasanaethau ar gael. Gall fod yn anodd i ddarparwyr gofal plant ddarparu lleoedd ar gyfer plant anabl am eu bod yn gorfod codi mwy er mwyn talu am eu costau ychwanegol. Pryder ynglŷn â bodloni anghenion penodol ac ynglŷn ag ansawdd. Disgwyliadau rhieni a darpariaeth darparwyr ddim yn cyfateb. | Nac oes |
| 12 | Rutter, J., a Stocker, K.(2014) Childcare Cost Survey 2014. Llundain: Family and Childcare Trust | Y DU | Cost Gofal Plant ar draws y DU | Arolwg meintiol | Anfonwyd arolwg i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd pob awdurdod lleol. Cafwyd cyfradd ymateb o 89% (n=184) | Canran A.Ll. sy'n hysbysu bod digon o ofal plant ar gyfer plant i rieni â phatrymau gwaith annodweddiadol (14% Lloegr, 9% yr Alban, 6% Cymru, cyfartaledd o 13%). | Canran yr A.Ll. sy'n hysbysu bod digon o ofal plant ar gyfer grwpiau penodol o blant: Plant anabl (28% yn Lloegr, 18% yn yr Alban a dim ond 6% yng Nghymru, cyfartaledd o 25%). Nid oes gan y mwyafrif o A.LL. ddigon o ofal plant ar gyfer plant anabl. | Oes |

| Rhif y Ddogfen. | Pennawd | Gwlad y tarddodd ynddi | Pwyslais | Cynllun yr Astudiaeth | Dull gwaith | Prif ganfyddiadau (oriau gwaith annodweddiadol) | Prif ganfyddiadau (anghenion ychwanegol) | Enghreifftiau o atebion/arfer gorau? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Daycare Trust (2007) Listening to parents of children with disabilities and special educational needs. Llundain: London Development Agency | Y DU - Llundain | Defnydd, profiadau a syniadau ynglŷn â gofal plant, bylchau ac anghenion a chost gofal plant. | Dulliau Cymysg | Holiadur (n=64) a grwpiau ffocws/ cyfweliadau â rhieni (n=25) a gweithwyr yn y maes (n=6) | | Diffyg gofal priodol yn enwedig ar gyfer y rhai hynny ag anghenion cymhleth iawn. Ychydig o ddefnydd o ofal plant ymhlith rhieni i blant awtistig - oedd yn credu bod angen sylw unigol ar eu plant. | Nac oes |
| 14 | Rutter, J., ac Evans, B. (2012b) Childcare for Parents with Atypical Work Patterns: The need for flexibility. Llundain: Daycare Trust | Y DU | Problemau gofal plant i bobl sydd â phatrymau gwaith annodweddiadol | Dulliau Cymysg | Is-ddadansoddiad o'r Arolwg o'r Llafurlu; Arolwg ymhlith rhieni (n=1413) Arolwg ymhlith gofalwyr anffurfiol (n=857) 12 grŵp ffocws | Roedd rhieni â phatrymau gwaith anodd eu rhagweld yn dibynnu ar ofal plant anffurfiol. Natur anhyblyg cymorth credydau treth ar gyfer gofal plant | | Nac oes |
| 15 | Working Families (2012) Finding Flexibility: parents of disabled children and paid work. Llundain: Working Families | Y DU | Profiadau rhieni wrth chwilio am ofal plant ar gyfer plant anabl a rhwystrau rhag gweithio. | Arolwg ar-lein | Arolwg ar-lein a oedd yn agored i unrhyw rieni i blant anabl o dan 25 oed (n=1008) | | Ystyrid mai cael gafael ar ofal plant addas oedd y prif rwystr rhag gweithio. Ystyrid gofal plant yn ddrud ond nid oedd dros hanner yn talu am ofal plant gan ei fod yn cael ei ddarparu gan y teulu neu trwy daliadau uniongyrchol. Diffyg dealltwriaeth o anghenion eu plant gan ddarparwyr gofal ac Awdurdodau Lleol: yn enwedig rhai â llawer o anghenion meddygol, ar y sbectrwm awtistiaeth a phlant hŷn. | Nac oes |

# Atodiad C: Asesiad Ansawdd

**Tabl 12 Fframwaith Asesu Ansawdd**[10]

| | a) Cwestiynau gwerthuso | b) Dangosyddion ansawdd (nodweddion posibl i'w hystyried) |
|---|---|---|
| **Canfyddiadau** | **1. Sut mae'r ymchwil wedi estyn gwybodaeth/ dealltwriaeth?** | i. Adolygiad o ddeunydd darllen (pan fo'n briodol) yn crynhoi gwybodaeth hyd yn hyn/ cwestiynau allweddol a godwyd gan ymchwil blaenorol.<br>ii. Trafodaeth o gyfyngiadau'r dystiolaeth a'r hyn sy'n anhysbys/aneglur neu pa wybodaeth/ymchwil ychwanegol sydd ei hangen. |
| | **2. Pa mor dda y mae'r gwerthusiad yn ymdrin â'i amcanion a'i ddiben gwreiddiol?** | iii. Datganiad eglur o nodau ac amcanion yr astudiaeth. |
| | **3. Cyfle i ddod i gasgliadau ehangach – pa mor dda yr eglurir hyn?** | iv. Trafodaeth ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach y detholwyd y sampl ohoni/ y dewiswyd yr achos ohoni. |
| **Cynllun** | **4. Pa mor gadarn yw cynllun yr ymchwil?** | v. Trafodaeth o'r rhesymeg wrth gynllunio'r astudiaeth.<br>vi. Trafodaeth o gyfyngiadau cynllun yr ymchwil a'u goblygiadau o ran tystiolaeth yr astudiaeth. |
| **Sampl** | **5. Pa mor dda y gellir cyfiawnhau cynllun y sampl/ sail targedu'r detholiad o achosion/dogfennau?** | vii. Disgrifiad o leoliadau/ardaloedd yr astudiaeth a sut a pham y'u dewiswyd.<br>viii. Rhesymeg y sail ar gyfer dethol y sampl/lleoliadau/dogfennau targed *(e.e. nodweddion/ priodoleddau'r sampl/lleoliadau/dogfennau targed, y sail dros eu cynnwys a'u hepgor*<br>*ix. trafodaeth o faint y sampl/nifer yr achosion/lleoliad a ddewisiwyd ac ati.)* |
| | **6. Cyfansoddiad y sampl/ achosion a gynhwyswyd – pa mor dda y disgrifir yr cwmpas terfynol?** | x. Proffil manwl o'r samplau/achosion a lwyddwyd i'w cynnwys.<br>xi. Trafodaeth o gyfyngiadau'r dull samplu. |
| **Casglu Data** | **7. Pa mor dda y casglwyd y data?** | xii. Trafodaeth o sut y rheolwyd y gwaith maes. |
| **Dadansoddiad** | **8. Pa mor dda y llwyddwyd i gyfleu'r dull o gynnal y dadansoddiad a sut y'i lluniwyd?** | xiii. Rhesymeg eglur dros y dewis a wnaed o ran dull/offer/pecyn rheoli data.<br>xiv. Trafodaeth, ag enghreifftiau, o sut y dyfeisiwyd ac y defnyddiwyd unrhyw deipolegau/cysyniadau dadansoddol a luniwyd. |

[10] Swyddfa'r Prif Ymchwilydd Cymdeithasol (2003) *Quality in Qualitative Evaluation: A framework for assessing research evidence.* Swyddfa'r Cabinet. Llundain. [Ar-lein].Ar gael yn: http://www.civilservice.gov.uk/wp-content/uploads/2011/09/a_quality_framework_tcm6-7314.pdf [Cyrchwyd 26 Chwefror 2014]

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adroddiad | **9. Pa mor eglur yw'r cysylltiadau rhwng data, dehongliad a chasgliadau – h.y. pa mor dda y gellir gweld y llwybrau at unrhyw gasgliadau?** | xv. | Cysylltiadau cysyniadol eglur rhwng sylwadaeth ddadansoddol a chyflwyniad y ddata gwreiddiol (h.y. mae cysylltiad rhwng y sylwadaeth a'r data y cyfeirir ato; mae cyd-destun dadansoddol i'r data y cyfeirir ato, ac nid ailadrodd disgrifiad ohono'n unig a wneir) |
| | **10. Pa mor eglur a threfnus yw'r adroddiad?** | xvi.<br><br>xvii. | Mae'n darparu gwybodaeth sy'n rhwydd i'r gynulleidfa darged (cynulleidfaoedd targed) ei deall.<br>Mae'n tynnu sylw at negeseuon allweddol neu'n eu crynhoi. |
| Ymatblygiaeth a Niwtraliaeth | **11. Pa mor eglur yw'r tybiaethau/safbwyntiau damcaniaethol/ gwerthoedd sydd wedi siapio ffurf ac allbwn y gwerthusiad.** | xviii. | Trafodaeth o sut y gallai camgymeriadau neu duedd fod wedi codi yn y gwaith cynllunio/ casglu data/ dadansoddi a sut yr ymdriniwyd â hynny, os o gwbl. |
| Archwiliadwy | **12. Pa mor ddigonol y cafodd y broses ymchwil ei chofnodi?** | xix. | Trafodaeth o gryfderau a gwendidau ffynonellau data a dulliau gwaith |

## Tabl 13 Sgoriau Asesiad Ansawdd

| | | Findings | | | | Design | | Sample | | | | Data collection | Analysis | | Reporting | | | Reflexivity and Neutrality | Auditability | Total score | Ranking |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Questions** | **1** | | **2** | **3** | **4** | | **5** | | **6** | | **7** | **8** | | **9** | **10** | | **11** | **12** | | |
| | **Indicator** | **i** | **ii** | **iii** | **iv** | **v** | **vi** | **vii** | **viii** | **ix** | **x** | **xi** | **xii** | **xiii** | **xiv** | **xv** | **xvi** | **xvii** | **xvii** | | |
| 1 | Evans, B. and Rutter, J. (2012) Improving our understanding of informal childcare in the UK. London: Daycare Trust | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 16 | High |
| 2 | Cheshire, H. Brown, V. Wollny, I. Ireland, E. Scott, S and Jessiman, P. (2011) Impact evaluation of the Disabled Children's Access to Childcare Pilot (DCATCH). London: Department for Education | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 14 | High |
| 3 | National Centre for Social Research. (2009) Welsh Childcare and Early Years Survey 2009. Cardiff: Welsh Assembly Government | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 14 | High |
| 4 | Dickens, S, Taylor, J. and La Valle, I. (2005) Local childcare markets: A longitudinal study. London: Department for Education | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 14 | High |
| 5 | Moss, J (2009) Juggling acts: how parents working non-standard hours arrange care for their pre-school children Social Policy Journal of New Zealand;Jun2009, Issue 35, p68 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 14 | High |
| 6 | Booth,C. Kostadintcheva, K. Knox, K and Bram, B. (2013) Parents' views and experiences of childcare. London: Department for Education | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 14 | High |
| 7 | Huskinson, T. Kostadintcheva, K. Greevy, H. Salmon, C. Dobie, S.Medien, K. Gilby, N. Littlewood, M and D'Souza, J. (2014) Childcare and early years survey of parents 2012-13. London: Department for Education | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 13 | Med |
| 8 | Singler, R. (2011) Open all hours: flexible childcare in the 24/7 era. London: Daycare Trust | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 13 | Med |
| 9 | Bryson, C. Kazimirski, A. and Southwood, H. (2006) Childcare and Early Years Provision: A study of parents' use, views and experience. London: Department for Education and Skills | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 12 | Med |
| 10 | NCMA Wales. (2009) Childcare for disabled children and young people. Cardiff; NCMA Wales | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 8 | Med |
| 11 | Rutter, J. and Stocker, K. (2014) Childcare Cost Survey 2014. London: Family and Childcare Trust | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 8 | Med |
| 12 | Daycare Trust (2007) Listening to parents of children with disabilities and special educational needs. London: London Development Agency | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 8 | Med |
| 13 | Le Bihan, B and Martin, C. (2004, December). Atypical working hours: Consequences for childcare arrangements. Social Policy and Administration, 38(6), 565 - 590. | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 8 | Med |
| 14 | Working Families. (2012) Finding Flexibility: parents of disabled children and paid work. London: Working Families | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 7 | Med |
| 15 | Rutter, J and Evans, B. (2012) Childcare for Parents with Atypical Work Patterns: The need for flexibility. London: Daycare Trust | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 7 | Med |